# tafod elái

TACHWEDD 2021

Rhif 362

Pris £1


## Ysgol Pont Siôn Norton yn 70



Ar ôl yr holl baratoi, fe gyrhaeddodd y diwrnod arbennig - Penblwydd Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn 70 mlwydd oed! Waw! Nid diwrnod ond wythnos o hwyl cafodd y disgyblion ym mis Hydref!

Dadorchuddiwyd murlun arbennig a grëwyd gan yr artist a'r cyn-ddisgybl, Gemma Fala gan ddefnyddio syniadau ein disgyblion. Mae'n edrych yn wych yn y neuadd! Rhagor ar dudalen 12.




**£10**

**Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Ond ni fydd yn bosib i'n dosbarthwyr daro drws y tŷ i dderbyn eich taliad.**

**Gofynnwn i chi felly fynd i wefan TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.**

**Gallwch dderbyn Tafod Elái yn ddigidol, neu wedi ei argraffu.**

## Newidiadau yn y Mentrau Iaith

Mae Einir Siôn yn symud i swydd newydd yn dilyn saith mlynedd yn arwain Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Hoffai'r Fenter a llu o gefnogwyr ddiolch o galon iddi am ei holl waith yn y cyfnod hwnnw a dymunwn pob lwc iddi yn y dyfodol.



Dywedodd Einir, "Mae wedi bod yn bleser gweithio o fewn ac ar ran Rhondda Cynon Taf yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad a chodi ei statws o fewn y Sir. Braint oedd arwain tîm arbennig. Hoffwn ganu clodydd pob un, yn staff y gwasanaethau plant, sylfaenwyr a swyddogion ein TIMau ieuenctid, swyddogion datblygu a chyllid, gweithwyr llawrydd, aelodau'r bwrdd a'r gwirfooddolwyr dirifedi. Ffrwyth llafur cariad yw eu cyflawniadau."

Mae'r Fenter wedi penodi Osian Rowlands yn Brif Weithredwr newydd.



Mae Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn falch o gyhoeddi bod Heulyn Rees wedi'i benodi fel eu Prif Weithredwr newydd. Bydd yn olynu Manon Rees-O'Brien sydd wedi'i phenodi yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol Chwaraeon Gogledd Cymru.

Wrth gyhoeddi'r newyddion dywedodd Joanna Adams, Cadeirydd Menter Caerdydd; "Mae'n bleser cael croesawu Heulyn fel ein Prif Weithredwr newydd a rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio gydag ef i barhau i ddatblygu ein gwaith ar drothwy dathliadau 25 mlynedd y Fenter yn 2023."

Wrth dalu teyrnged i Manon ychwanegodd Joanna: "Hoffwn ddiolch yn fawr i Manon, Prif Weithredwr y Fenter am ei hymrwymiad a'i hegni yn ystod ei hamser yn arwain y Fenter. Trwy sgiliau arweinyddiaeth Manon mae hi a'r tîm wedi cyflawni gymaint dros y dair mlynedd a hanner diwethaf. Bu'n bleser gweithio gyda hi a dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol."

## Nid Yw Cymru Ar Werth




Mae pobl ifainc yn ei chael yn amhosibl bellach i brynu cartrefi yn eu cymunedau eu hunain mewn llawer o ardaloedd yn y gogledd a'r gorllewin, a chymunedau naturiol Gymraeg yn cael eu tanseilio. Ers Brexit mae sylw llawer o bobl sy'n ceisio ail gartref neu dŷ gwyliau wedi troi o Ffrainc a Sbaen i Gymru. Ar ben hyn daeth awydd mawr yn sgîl y pandemig i ffoi o ddinasoedd Lloegr i ardaloedd gwledig a ystyriwyd yn fwy diogel. Mae cwmnïau cyllid bellach yn hyrwyddo'r broses arlein i bobl o du allan brynu tai yng Nghymru fel ail gartrefi ac fel buddsoddiadau i'w gosod dan AirBnB.

Parhad ar dudalen 20



Derbyniodd Gwŷl Tafwyl 2021 Menter Caerdydd y wobr am y Digwyddiad Gorau yn seremoni gwobrwyo Cardiff Life. Leanne Rochefort-Shugar, Manon Rees-O'Brien a Nia Donnelly fu'n derbyn y wobr.

# tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr
i gyrraedd erbyn
26 Tachwedd 2021

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk



CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno




## Cyfraniad enfawr Guto Davies



Yn dilyn dros 30 mlynedd o wasanaeth i adran gyhoeddusrwydd Clwb Rygbi Pontypridd mae Guto Davies yn rhoi'r gorau i'w gyfrifoldebau. Dechreuodd wirfoddoli i'r clwb yn y 1980'au ac wrth i'r gêm rygbi droi yn broffesiynol bu'n gweithredu fel Swyddog y Cyfryngau gan olygu gwefan y clwb, rhaglenni'r gemau a sianel fideo Ponty TV.

Dywedodd Guto Davies: "Mae wedi bod yn fraint arbennig i weithio i Glwb Rygbi Pontypridd dros y blynyddoedd, mae'n glwb arbennig, bywiog gyda chefnogwyr angerddol, sy'n gwneud gwaith swyddog y cyfryngau gymaint yn haws.

"Rydw i wedi gallu gweithio gyda rhai o'r hyfforddwyr gorau, fel Lynn Howells, Simon King a Dale McIntosh, hefyd gyda rhai o chwaraewyr gorau eu hoes, a gyda rhai o gymeriadau y clwb. Anaml y bu eiliad diflas ar hyd y daith. "

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol, Steve Reardon: "Cyhyd ag y gallaf gofio, mae'r geiriau Guto Davies a'r Swyddog Cyfryngau wedi bod yn gyfystyr yng Nghlwb Rygbi Pontypridd. Er mai rôl anrhydeddus yw Swyddog Cyfryngau'r Clwb mae Guto bob amser wedi bod yn weithiwr o safon proffesiynol dros ben. Ar ran Clwb Rygbi Pontypridd, diolchaf iddo yn ddiffuant am bopeth y mae wedi'i wneud i hyrwyddo achos y Clwb."

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn tua diwedd mis Ionawr. Yn barod mae Testunau Gwaith Cartref 2022 wedi'u cyhoeddi a rhaid i'r ceisiadau gyrraedd erbyn 6pm ddydd Gwener 26 Tachwedd 2021.

Beirniaid Rhyddiaith: Manon Steffan Ros a Geraint Lewis
Beirniaid Barddoniaeth: Aneirin Karadog ac Eurig Salisbury
Beirniad Ffotograffiaeth: Betsan Evans
Beirniad Cerddoriaeth: Gareth Olubumni Hughes
Cysylltwch â
cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru
gydag unrhyw gwestiwn neu ymholiad.
Pob lwc!

## CLWB Y DWRLYN

## CYLCH CADWGAN

**Rhys Dafis**

**Ysgrifennydd Barddas, yn siarad am ei ddosbarthiadau barddoniaeth.**

**7.30yh Nos Iau, Tachwedd 11eg**

**Ar Zoom**

**Manylion Cysylltu oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

## Cymrodorion Caerdydd

**Sefydlwyd 1885**

**RHAGLEN 2021 - 2022**

Y tymor hwn cynhelir ein holl gyfarfodydd ar Zoom. Caiff aelodau'r gymdeithas eu hysbysu o'r ddolen Zoom ymlaen llaw**.** Mae croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais i ymaelodi neu am gael ymuno mewn cyfarfod unigol ar Zoom drwy anfon am y ddolen at Gwynn Matthews:
m.g.derwendeg@gmail.com

Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig ac ni chyfyngir aelodaeth i drigolion Caerdydd yn unig. Tâl Aelodaeth: £10 am y flwyddyn i unigolyn. Mynediad i gyfarfodydd yn rhad i aelodau, a £3 y pen i gyfarfod unigol gan eraill. Gellir talu mewn arian parod, neu siec neu'n uniongyrchol i'r banc. Ceir y manylion yn yr ateb i gais am aelodaeth neu ddolen.

Bydd pob cyfarfod yn dechau am 7.30yh.

3 Rhagfyr ***Darlith Goffa'r Athro John Gwynfor Jones.*** 'Y bugail sydd wedi mynu cynnal y cyfarfod nos Fercher yn iaith y Saxon': newid iaith yng nghapeli Cymraeg Caerdydd, 1850 – 1914. Dr Dylan Foster Evans

4 Chwefror **Dychmygu Iaith**
Yr Athro Mererid Hopwood

11 Mawrth **Cylch o Hanner Canrif: Meithrin Miliwn** Dr Gwenllian Lansdown Davies

6 Mai *Teitl i'w gyhoeddi*. Yr Athro Richard Wyn Jones

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Tafarn y Kings**
Mae'r Kings ar werth ond yn ddiweddar mae wedi cael cydnabyddiaeth neb llai na Tom Parker Bowles yn y Mail on Sunday fel un o'r 6 thafarn fwya cwtshlyd yng Nghymru. Cyfeiriodd at Bentyrch fel pentre pert gan ganmol lloriau llechi, waliau gwyngalchog, tanau agored a gerddi hyfryd y dafarn.

**Noson Calan gaeaf**
Mae'r pentre'n paratoi ar gyfer cystadleuaeth flynyddol y bwganod a'r thema eleni yw "Teyrnas yr Anifeiliaid". Mae bwrdd picnic newydd a brynwyd gydag elw'r gystadleuaeth y llynedd newydd gael ei osod yn y parc chwarae wrth dafarn y Lewis ond gair i gall wrth ymweld â'r parc – mae rhai o ddarllenwyr y Tafod newydd gael dirwyon trwm wrth fynd â'u hwyrion i'r parc a pharcio yn y maes parcio gyferbyn â'r dafarn. Mae'r hawliau parcio ar y llain yma o dir yn fater sensitif sy'n cael sylw cyfreithiol ar hyn o bryd.

**Tun ar y Wal**
Mae casgliad Tun ar y Wal Clwb Rotari'r Garth at fanciau bwyd Caerdydd a Thaf Elái wedi ail-ddechrau ers diwedd mis Hydref, ac yn digwydd fel arfer rhwng 9 a10 ar fore Gwener olaf y mis. Mae'r manylion i gyd ar Grŵp Pentyrch ar Facebook. Mae'n dal yn bosib gadael rhoddion yn y biniau mawr y tu allan i swyddfa Cyngor Cymuned Pentyrch, fel yn ystod cyfyngiadau Covid.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Sara, Sian a Lynne a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth eu mam, Menna Bassett a oedd wedi ymgartrefu ym Mhentyrch ers rhai blynyddoedd. Cafodd ofal arbennig yn ystod ei gwaeledd yn y City Hospice. Bydd ei hangladd yn cael ei gynnal yng Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Draenen Pen-y-graig (Thornhill), ar b'nawn Iau yr 28ain o Hydref, am 2:00 o'r gloch.

**Dymuniadau Da**
Mae nifer o drigolion y pentre wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar a dymunwn adferiad buan iddynt - i Ann Jones wrth iddi wella wedi cael clun newydd, i Peter Evans wedi iddo gael penglin newydd ac i Eiry Rocheford yn dilyn triniaeth ar ei llygad.

Danfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da i Carol Penri hefyd wrth iddi gryfhau yn dilyn ei llawdriniaeth hithau.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Babi bach newydd!**
Croeso i'r byd, Siôn James! Wel, dri mis a mwy yn ôl bellach! Mae Siôn yn frawd bach i Lloyd ac yn fab i Emma a Mark Raymond, Parc y Coed, Creigiau. Cafodd ei eni ar Orffennaf 24ain ac mae'r teulu wrth ei bodd gyda'r aelod newydd! Llongyfarchiadau mawr deulu bach!




**Cylch Cadwgan**
Braf cael nodi bod Cylch Cadwgan yn fyw ac yn iach a bod yr awenau bellach yn nwylo diogel Glenys Roberts, Creigiau. Diolch o waelod calon i Dr Rowland Wynne am dros ugain mlynedd o drefnu, o ddarparu, o wahodd, o berswadio - na, nid mater bach oedd cadw Cylch Cadgan i fynd mor llyfn ac effeithiol am gyhyd! Gwahoddwyd Lleucu Roberts, enillydd y dwbwl-dwbwl i'n hannerch ddechrau mis Hydref a chafwyd noson hyfryd yn ei chwmni hawddgar gyda Glenys yn llywio'r sgwrs yn gelfydd a chynnes. Cawsom hanes Lleucu o'i dyddiau cynnar yng Ngheredigion, a'r dylanwadau fu arni tra 'n ddisgybl yn ysgol Penweddig a phrifysgol Aberystwyth. Soniodd am ei hoffter o ddarllen a'r hyn a barodd iddi fod mor llwyddiannus a chynhyrchiol fel awdur. Braint oedd cael bod yn ei chwmni. Diolch Lleucu a Glenys!

**Croeso**
Croeso i Huw a Louise Llywelyn, a'u dwy ferch, i'n plith, wedi iddynt symyd o Riwbeina i Heol-yr-Eglwys, Pentyrch ers ychydig wythnosau. Mae Huw, sy'n hanu o Rhuthun, yn Beirianydd Sifil, ac yn gweithio ar y cynllun i gwblhau'r A465 o Ferthyr i Hirwaun, ac mae Louise, o Gaerfyrddin yn wreiddiol, yn Gynorthwyydd Meithrin.

# Gwobrwyo Ysgolion Meithrin

Mae'r Cylchoedd Meithrin yn cael eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau. Maen nhw'n ysbrydoli datblygu trwy chwarae, gan baratoi'ch plentyn ar gyfer datblygu iaith yn y dyfodol drwy fod yn ddwyieithog o oedran cynnar.

Cynhaliwyd seremoni Gwobrau Cenedlaethol Mudiad Meithrin yn Theatr y Werin, Aberystwyth ar yr 2il o Hydref. Tynnwyd sylw at waith y sector gofal plant cyfrwng Cymraeg a gwaith y rheiny sy'n gweithio yn y sector, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant ifanc.

Yng nghategori Cylch Meithrin De-ddwyrain Gwobrau Mudiad Meithrin 2021, aeth y tair prif wobr i gylchoedd yn Rhondda Cynon Taf – Cylch Meithrin Evan James, Pontypridd, yn gyntaf: Cylch Meithrin Camau Cyntaf Llanhari yn ail; Cylch Meithrin Nant Dyrys, Ynys-wen, yn drydydd.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Mudiad Meithrin: "Mae'r Seremoni Gwobrau yn ffordd hyfryd o godi proffil y gweithlu a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r modd arwrol mae'r staff wedi ymdopi i gynnal y gwasanaeth i blant staff allweddol yn ystod y pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw'r gwasanaeth yma i'r gymuned leol."

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Esme a'r teulu ar golli Mam, Mam-gu a Hen-Fam-gu annwyl. Bu farw Mrs Tegwen Gibby ddiwedd mis Medi ac fe gynhaliwyd angladd hollol breifat yn Aberporth ganol mis Hydref. Yn anfon cwtsh cynnes Esme, Iwan, Caryl, Owain, Dafydd a Seth, a Manon Haf yr orwyres.

**Pencampwyr!**
Llongyfarchiadau mawr i griw o fechgyn Creigiau ddaeth yn fuddugol yng Nghwis Clwb Rygbi Pentyrch ddechrau'r mis. Roedd hi'n noson hwyliog iawn yng ngofal Alun Tudno Jenkins. Yr holi'n heriol a'r cystadlu'n frwd. Ar y brig daeth tîm *Arian Byw* - sef Ian Buckland, Huw Roberts, Tim Cox a Dr Mike Jenkins! Cymry Cymraeg oll - ond un! Nid yn unig oedd rhain yn enillwyr haeddiannol - ond hael hefyd, gan iddynt rannu eu gwobrau gyda ledi fach oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig, ac hefyd gyda'r tîm lleia ar y noson! Nobl iawn hogia!

**Adroddwr**
Llongyfarchiadau i Iestyn Gwyn Jones ddaeth yn gyntaf am Adrodd Cerdd Gweld y Gorwel, Aneirin Karadog, yn Eisteddfod Y Rhondda 2021. Beirniad y gystadleuaeth Llefaru Unigol 16 oed neu'n hŷn oedd Kathryn Gwyn.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Swyddfa'r Post**
Mae'n braf cael croesawu gwasanaeth y Swyddfa Bost i'r pentref unwaith eto. Daw'r fan i'r pentref am awr bob prynhawn Llun rhwng chwarter i dri a chwarter i bedwar o'r gloch. Os bydd digon o gefnogaeth i'r fenter hwyrach y gellir ail-sefydlu'r gwasanaeth yn y siop leol.

**Swyddi Newydd**
Llongyfarchiadau i Heulyn Rees, Penywaun sydd wedi ei benodi'n Brif Weithredwr Menter Caerdydd. Bu Heulyn yn Rheolwr Addysg Oedolion yng Nghanolfan Garth Olwg am dros bymtheg mlynedd. Bydd yn dechrau yn ei swydd ar y 22ain o Dachwedd. Pob dymuniad da i ti.

Llongyfarchiadau gwresog i Dewi Rees, mab Geraint a Caroline Rees, Penywaun sydd wedi ei benodi'n brifathro ar Ysgol Gynradd Gymraeg Pwll Coch yng Nghaerdydd. Bu Dewi'n dysgu yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof am tua wyth mlynedd. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Ionawr. Dymuniadau gorau i ti Dewi.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn yn dda i'r brawd a'r chwaer, Mabon a Brengain Rhys Penywaun sydd wedi dioddef cyfnod o salwch yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonoch.

**Cylch Ti a Fi**
Mae'n braf cael nodi fod yna Gylch Ti a Fi wedi ei sefydlu yn Neuadd y Pentref ers rhyw dair wythnos. Mae cefnogaeth dda iawn i'r cylch a rhwng pymtheg ac ugain o blant bach yn mynychu'r cylch ar fore Mercher rhwng hanner awr wedi deg y bore a chwarter i ddeuddeg. Arweinydd y cylch yw Emma Williams.

**Bore Coffi**
Gwahoddir y pentrefwyr ac aelodau'r Tabernacl i Ganolfan y Tabernacl am goffi a sgwrs bob bore Mawrth rhwng 10.30 y bore a chanol dydd. Croeso cynnes i bawb.

**Croeso i'r Ardal**
Croeso i Jac Jenkins a Caitlin Gapper sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal. Mae Caitlin yn enedigol o'r ardal a Jac yn hanu o Ynysybwl. Maent wedi setlo'n dda yn yr ardal a Jac wedi ei ddewis yn gapten ar ail dîm rygbi Clwb Llanilltud Faerdref.

**Y TABERNACL**
**Brysiwch Wella**
Dymunwn yn dda i Carol Williams sydd wedi treulio cyfnod arall yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Yr un yw ein dymuniadau i Linda Ladd a Leah Rees am wellhad buan.

**Bore Coffi MacMillan**
Trefnwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn y Ganolfan fore Llun, Hydref 4ydd gan Eleri Mai, ein Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol newydd. Roedd pob math o ddanteithion i'w blasu ac i'w prynu ar ddiwedd y bore. Roedd yn braf cael mwynhau'r wledd a chael clonc o amgylch y byrddau gyda ffrindiau, a hynny am y tro cyntaf ers deunaw mis a mwy. Codwyd £250 tuag at Gronfa MacMillan sy'n achos teilwng iawn.

**Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul**
Trefnwyd Gwasanaeth Diolchgarwch pwrpasol iawn gan Huw M a Bethan Reynolds, fore Sul, Hydref 17eg. Roedd yn hyfryd cael cwmni'r plant ifanc yn cyflwyno eu diolch drwy gyfrwng llun, ac ar lafar a chân. Cawsom berfformiad gwych gan Huw o'r gân gyfansoddodd llynedd "Fesul Dydd mae diolch", cân a fu'n llwyddiant ysgubol trwy Gymru a thu hwnt. Yn wir cymaint fu'r llwyddiant fel yr aralleiriwyd y gân gan Esyllt Nest Roberts, athrawes o'r Wladfa a chawsom wylio a gwrando'r plant o'r Gaiman yn canu'r gân i ddod â'r Oedfa i'w therfyn. Yn ystod y bore cyflwynwyd cyflenwad o fwydydd tun, pasta a reis i'r Banc bwyd lleol.

**Y Banc Bwyd**
Bu'r casgliadau ariannol i'r Banc Bwyd yn Y Tabernacl yn ystod y Cyfnod Clo yn arbennig o lwyddiannus gyda'r cyfanswm dros £7000. Gan fod y Capel erbyn hyn wedi ail-agor byddwn yn dychwelyd at yr arfer o gasglu bwyd ar fore Sul yn hytrach na chyfrannu'n ariannol. Byddwn yn cefnogi Banc Bwyd Taf Elai a Banc Bwyd Salem, Tonteg o hyn allan.

**Clwb y Twmiaid**
Ar ôl cyfnod hir o ryw ddeunaw mis mae Clwb y Twmiaid wedi ail-ddechrau cyfarfod. Yn ôl y sôn mae criw da iawn o bobl ifanc brwdfrydig yn ymgynnull yn y Ganolfan bob nos Sul. Bydd rhaglen y Clwb yn amrywio o gael gwledd o "pizza" neu gyri a chwis i baratoi ar gyfer Gwasanaeth y Nadolig a'r Ffair Nadolig. Eleri Mai, ein Swyddog Ieuenctid fydd yn arwain y sesiynau ac mae croeso cynnes i blant Blwyddyn 7 ac i fyny i ymuno bob nos Sul o 5 o'r gloch tan 6.30 yr hwyr yng Nghanolfan y Tabernacl.

**Merched y Tabernacl**
Gan fod y capel wedi ail-agor y drysau ers mis Medi teimlwyd y byddai'n dda i'r merched gael cyfle i gymdeithasu unwaith yn rhagor. Trefnodd Judith Thomas a Gaynor Evans ein bod yn dod at ein gilydd yn Y Ganolfan, fore Gwener, Hydref 22ain i fwynhau paned a sgwrs ac i wyntyllu barn am ein dyfodol. Roedd y penderfyniad yn unfrydol ein bod yn dal i gyfarfod yn y Ganolfan i gymdeithasu'n fisol. Bydd ein cyfarfod nesaf fore Gwener, Tachwedd 12fed yn y Ganolfan am 10.30 y bore.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Tachwedd**
Tachwedd 7fed Gwasanaeth yng ngofal Ceri Anwen a Geraint Rees
Tachwedd 14eg Y Parchedig Aled Edwards gyda Huw a Bethan Herbert
Tachwedd 21ain Gwasanaeth yng ngofal Wendy Reynolds, Gwion Evans a John Llewelyn Thomas.
Tachwedd 28ain Y Parchedig Gethin Rhys ac Edwyn Evans. Cyfarfod Eglwys Blynyddol i ddilyn.

## Tonteg

**Shot ore!**
Ac yntau wedi bod yn ymarfer y grefft ers bron i bymtheg mlynedd ar hugain, mae Tim Howells, Tonteg yn dal yn saethwr craff ac yn parhau i ennill cwpanau! Erbyn hyn mae'n aelod o dîm saethu hen lawie Cymru! Triwch chi gyfieithu 'veterans'! Bu'n cynrychioli Cymru dros bump ar hugain o weithiau gan ennill Pencampwriaeth Prydain unwaith neu ddwy. Y llwyddiant diweddara ydoedd ennill y gystadleuaeth i hen lawie yn 2019 a dod yn ail yn 2020! Tipyn o gamp hen foi! Llongyfarchiadau mawr, Tim! A dal ati i ennill cwpanau! Mwy o waith polisho i Joy!



## Clwb y Dwrlyn

Cychwynodd tymor Clwb y Dwrlyn ar Zoom yng nghmni Gwyneth Glyn a Twm Morys. Cawsom wledd o ganeuon a cherddi yn ein tywys o Eifionydd i Dde America. Diolch i Jên Dafis, Merched y Wawr am hwyluso'r Zoom.



# Helpu Pobl Hŷn i Fyw Bywydau Annibynnol

Mae'r Cyngor a Linc Cymru (Linc) wedi cyhoeddi bod gwaith adeiladu Cwrt yr Orsaf, y cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd ym Mhontypridd sydd â lle i 60 o breswylwyr, wedi'i gwblhau. Mae trefniadau wrthi'n cael eu datblygu i'r preswylwyr cyntaf symud i mewn yn fuan.



Wedi'i adeiladu ar safle hen Lys Ynadon Pontypridd yn ardal Graig, dyma'r trydydd cyfleuster Gofal Ychwanegol o'r radd flaenaf yn Rhondda Cynon Taf. Y ddau arall yw Tŷ Heulog yn Nhonysguboriau a Maesyffynnon yn Aberaman. Mae Gofal Ychwanegol yn helpu pobl hŷn i fyw bywydau mor weithgar ac annibynnol â phosibl, gyda chymorth ar gael ddydd a nos ar y safle er mwyn bodloni anghenion y preswylwyr.

Mae buddsoddiad o £50 miliwn wrthi'n cael ei wneud er mwyn darparu 300 o welyau Gofal Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ardaloedd dan sylw ar gyfer hynny'n cynnwys Maesyffynnon, Cwrt yr Orsaf, a chynlluniau yn y dyfodol yn ardal Porth, (ar safle Cartref Gofal Preswyl Dan-y-Mynydd), Aberpennar a Threorci. Mae'r rhain yn cael eu datblygu ar y cyd gan y Cyngor a Linc. Mae datblygiad Cwrt yr Orsaf wedi elwa o gyfraniad cyllid sylweddol gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cwblhau'r cam adeiladu, cafodd Cwrt yr Orsaf ei drosglwyddo i'r Cyngor gan y contractwr, Jehu Project Services Ltd, ddydd Gwener 15 Hydref. Mae'r Cyngor a Linc yn gweithio i ddechrau symud y preswylwyr cyntaf i mewn i'r cyfleuster newydd, ac mae disgwyl i hyn ddigwydd yn fuan.

Mae'r datblygiad newydd yn cynnwys 60 o fflatiau newydd (56 fflat un ystafell wely, a 4 fflat dwy ystafell wely), yn ogystal ag ystafell fwyta a lolfa, cegin gymunedol, salon trin gwallt, maes parcio â lle i 31 car, gerddi cymunedol wedi'u tirlunio, ac uned gofal oriau dydd. Mae'r fynedfa i'r safle hefyd wedi'i ehangu.

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sara Davies

**Croesfan yn Y Groes-faen**

Mae bwriad Cyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Taf i greu Croesfan Pâl newydd yng nghanol y pentref yn y Groes-faen gam yn nes at gael ei wireddu erbyn hyn.

Eisoes cafwyd ymateb ffafriol gan drigolion y pentref i'r cynlluniau. Danfonwyd 219 o lythyrau i'r cartrefi. Derbyniwyd 55 o atebion a dim ond 3 gwrthwynebiad a gafwyd.

Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnig symud cyffordd Y Parc ymlaen ychydig gamau i fewn i'r A4119, a fydd yn cael ei chulhau er mwyn gwella mesurau diogelwch.

Ceir cyfnod o ymgynghori cyhoeddus o hyn ymlaen, pryd y gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i ymateb yn swyddogol i'r cynlluniau. Gellir cyflwyno'r sylwadau drwy ddanfon at y Rheolwr Trafnidiaeth, Rheolaeth Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU neu drwy ebost at trafficservices@rctcbc.gov.uk

**Neuadd y Dref Llantrisant**

Trefnwyd llu o weithgareddau amrywiol ar gyfer mis Tachwedd.

Ar y 4ydd o Dachwedd traddodir darlith gan David Barden yn sôn am y planhigion gwyllt a welir ar y Comin yn Llantrisant.

Ar y 18fed o Dachwedd ceir noson yng nghwmni David Maddox. Fe yw cyd-awdur y llyfr 'The Tonypandy Riots'. Bydd yn trafod hanes y terfysgoedd yn Nhonypandy a'r hyn a ystyriwyd yn ymateb eithafol gan yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, sef Winston Churchill.

Ar y 3ydd Dydd Iau bob mis cynhelir dosbarth Ysgrifennu Creadigol yn Neuadd y Dref Llantrisant. Mae'n gyfle i ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu creadigol yn rhad ac am ddim yno.

**Groes-faen Gwyrdd**

Sefydlwyd y prosiect yn mis Medi 2020. Bellach mae'n mynd o nerth i nerth. Mae'r gwirfoddolwyr yn cwrdd bob bore Iau i arddio a phlannu. Crëwyd gardd gymunedol ar ddarn o dir diffaith wrth fynedfa Y Parc. Hefyd crëwyd gardd fach er mwyn denu pryfed ac adar yng nghanol y pentref.



# Yn 'Mentro' tua'r Nadolig...

menter caerdydd

Wedi hanner tymor prysur, bydd golygon pawb bellach yn troi at y Nadolig! Mae Siôn Corn yn ffrind agos iawn i Menter Caerdydd felly cadwch lygad ar ein gwefan ar gyfer newyddion cyffrous am y groto rhithiol a'r gwasanaeth llythyrau arbennig!

O nawr tan y Nadolig, bydd digon o weithgareddau i gadw aelodau iau'r teulu yn hapus wrth i'r clybiau dawns a drama barhau, yn ogystal â'r gwersi Sbaeneg. Fantástico! Cofiwch hefyd am y sesiynau Mami Heini i famau beichiog, Bygi Heini i rieni newydd ac Amser Stori. Draw yn y Barri, bydd sesiynau newydd Deffro'r Synhwyrau i fabanod yn boblogaidd iawn.

Mae calendr yr oedolion hefyd yn llawn dop o weithgareddau amrywiol.

O nos Lun, 8 Tachwedd, Dr Euryn Roberts fydd yn olrhain hanes cestyll Gogledd Cymru yn ein cwrs hanes diweddaraf. Yn dod dan sylw bydd cadarnleoedd y tywysogion Cymreig; cestyll Edward I a hynt â helynt rhai o'r cestyll hyn ar ôl cyfnod Glyndŵr.

Bydd Kelly Lewis o Neal's Yard yn cynnig sesiynau pampro ar Zoom, nos Wener, 12 a nos Sul, 21 Tachwedd. Cyfle gwych i ymlacio – a phrynu anrhegion Nadolig!

Byddwn ni'n croesawu Adam yn yr Ardd yn ôl nos Iau, 11 Tachwedd wrth i'r Clwb Garddio ddychwelyd am dymor arall o sesiynau misol. Bydd Adam yn cynnig cyngor tymhorol defnyddiol felly ewch i'r wefan i ymaelodi!

Yr hanesydd Dr Simon Brooks fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis, nos Iau, 18 Tachwedd wrth iddo fwrw golwg ar hanes amlethnigrwydd ac amlddiwylliannedd ym mywyd Cymraeg Caerdydd.

Dewch draw i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar foreau Llun (1, 15, 22 Tach) i glywed cerddorion Live Music Now yn perfformio darnau amrywiol. A chofiwch am ein sesiynau ffitrwydd i'r rhai dros 75 oed yng Ngerddi Soffia, fydd bellach yn cael eu cynnal bob yn ail wythnos! Sesiwn nesaf, 12 Tachwedd.

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau, ewch i: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.

# Curo'r Corona'n Coginio

## Eluned Davies-Scott

**Amddiffynnwr yn erbyn fampirod?**



Mae garlleg yn debyg i 'Marmite' - rydych naill ai yn ei hoffi neu ei gasáu! Mae potyn o arlleg bob amser ar ffenest y gegin yn ein tŷ ni ac mae'n rhaid ei ail-lenwi yn rheolaidd.

Gelwir garlleg yn bwerdy maethol ac yn gabinet meddygaeth gyflawn - dylai pawb fwyta ewin o arlleg y diwrnod yn ôl Raymond Blanc!

Mae defnydd garlleg yn rhagddyddio hanes ysgrifenedig; mae cofnodion Sansgrit yn dogfennu defnyddio meddyginiaethau garlleg oddeutu 5000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ôl y chwedl, roedd ffaraohiaid yr Aifft yn gwerthfawrogi garlleg yn uchel iawn; fe'i defnyddiwyd wrth berarogli cyrff ac yn aml fe'i claddwyd yn y beddrodau hefyd. Rhoddwyd dogn dyddiol i gaethweision a oedd yn adeiladu'r pyramidiau i'w cadw'n heini ac yn gryf.

Lledaenodd poblogrwydd garlleg pan gyrhaeddodd Wlad Roeg a Rhufain. Erbyn hynny roedd garlleg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coginio, fel meddyginiaeth a bwyd ar gyfer defodau crefyddol. Honnwyd fod garlleg yn gallu gwrthyrru sgorpionau, trin brathiadau cŵn, gwella asthma, amddiffyn rhag gwahanglwyf, ac os caiff ei grogi uwchben drws mynediad y tŷ, gallai atal y frech wen rhag lledaenu! Dylanwadodd rheolaeth rheol Fwslimaidd ar draws y Dwyrain Canol a Dwyrain Ewrop ar ddefnydd garlleg yng nghanol a gorllewin Ewrop lle cafodd ei gyfarch yno fel meddyginiaeth ragorol. Disgrifiodd llyfrau meddygol o'r 1660au ef fel iachâd rhagorol ar gyfer pla a brech fach. Profodd fferyllydd a microbiolegydd enwog ym 1858 y gallai garlleg ladd germau, gan leihau'r posibilrwydd o heintiau clwyfau. Oherwydd y canfyddiadau hyn, defnyddiwyd garlleg yn helaeth fel iachâd gwrthseptig a dysentri yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Credir bod llawer o effeithiau therapiwtig garlleg yn deillio o'r *allicin* sydd ynddo. Mae hefyd yn cynnwys sylffwr sy'n rhoi'r arogl a blas amlwg iddo. Erbyn hyn mae garlleg yn cael ei gydnabod fel antiseptig a gwrthocsidydd, gan helpu i amddiffyn y corff rhag radicalau rhydd a all achosi niwed i gelloedd; mae hefyd yn gysylltiedig â chylchrediad gwaed, lefelau cholesterol ac iachach a gostwng pwysedd gwaed. Mae garlleg yn ffynhonnell dda o fitamin B6, manganîs, seleniwm a fitamin C a hefyd yn cynnwys ffosfforws, calsiwm, potasiwm, haearn a chopr.




Mae tua 70 o wahanol fathau o arlleg ar gael ond yr un sy'n cael ei werthu yn rhan fwyaf o'n siopau yw'r *Allium sativum* gan ei fod yn hawdd i'w dyfu yn enwedig ar y cyfandir. Mae llawer o fathau o arlleg yn gweddu'n dda i hinsawdd y DU. Ar un pryd roedd cyfran uchel o arlleg yn dod o Ynys Wight ac mae hanes diddorol i pam y daeth yr ynys yn enwog am dyfu'r aelod hwn o deulu'r alliums. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd lleolwyd cychod torpedo Byddin Rydd Ffrainc yn Cowes. Byddai'r criwiau yn cwyno yn aml wrth berchennog y dafarn leol fod y bwyd yn ddiflas ac fe wnaed cais ganddynt iddo dyfu rhywfaint o arlleg ar eu cyfer ar ei fferm. Gollyngwyd sach o arlleg iddo i blannu gan gadw'r Ffrancwyr yn hapus trwy gydol y rhyfel. Mae'r fferm yn dal i fodoli ac yn gwerthu cynnyrch garlleg yn lleol ac ar lein. Efallai'n ddrytach ond gydag ôl troed carbon llai mae'n werth cefnogi busnesau bach y DU.

Mae'n bosibl prynu garlleg gwyrdd ffres yn ystod misoedd yr haf. Dail o rywogaeth wahanol o allium (*Allium ursinumgan)* yw'r rhai sy'n tyfu mewn tir llaith yn y gwanwyn. Gallwch ddefnyddio'r dail, neu'r pennau blodau bach gwyn mewn salad, mae'r dail yn dda mewn stwffin ar gyfer cyw iâr neu wedi'u malu i mewn i saws pesto.

Mae garlleg du a garlleg mwg wedi dod yn ffasiynol yn ddiweddar. Mae garlleg du yn cael ei eplesu ar dymheredd uchel i roi blas mwy melys iddo ac mae garlleg mwg yn cael ei baratoi gyda sglodion derw - nid yw'r broses yn ychwanegu unrhyw fywyd ychwanegol i'r bwlb ond, wedi'i rostio, mae ei daeniad da ar dost fel brwschetta.

Er nad wyf i'n hoff iawn o'r dewisiadau amgen i arlleg ffres gallant fod yn gynhwysion wrth law sy'n rhwyddach i'w defnyddio - y gronynnau a naddion, y past, manfriw, powdwr a'r halen (yr un gan Halen Môn yw'r unig un sy'n fy nghwpwrdd i, ac mae ei saws garlleg du yn flasus iawn hefyd). Mae tueddiad i storio'r rhain am gyfnod rhy hir sy'n amharu ar eu blas. I gael y blas gorau prynwch arlleg ffres. Peidiwch â phrynu garlleg sy'n feddal, sy'n dangos tystiolaeth o bydredd neu'n dechrau egino. Mae'n well ei storio ar dymheredd ystafell mewn cynhwysydd heb ei orchuddio neu mewn lle oer tywyll i ffwrdd o wres a golau haul.

Mae'r cyfansoddion sylffwr yn cael eu rhyddhau cyn gynted ag y byddwn yn torri i mewn i fwlb o arlleg ac yn dinoethi'r arwynebau y tu mewn i ocsigen yn yr awyr. Bydd mwy o dorri yn rhyddhau mwy o'r cyfansoddion, felly mae'n dilyn mai past garlleg fydd â'r blas cryfaf. Mae gwasgu'r ewin yn rhyddhau llai o'r sylffwr, gan wneud blas y garlleg ychydig llai cryf. Mae gwasgu'r ewin yn ysgafn hefyd yn rhyddhau'r croen ac yn ei wneud yn rhwyddach i'w blicio. Gan nad yw'r cyfansoddion sylffwr yn cael eu rhyddhau'n llawn bydd garlleg cyfan yn ychwanegu blas garlleg cynnil ac yn fwy melys at seigiau. Os yw'r garlleg rydych chi'n ei ddefnyddio yn ifanc, mae'r germ yn y canol yn feddal ac nid yw'n cael fawr o effaith ar y blas ond os yw'r hedyn wedi troi'n wyrdd fe all flasu'n chwerw. Os am gael blas cryf mewn rysáit dwi'n gratio'r garlleg gyda theclyn 'Microplane'; efallai fod rhai ohonoch wedi dod ar draws y platiau bach lliwgar o Sbaen sy'n gwneud y gwaith hwn hefyd. Rhaid bod yn ofalus wrth goginio garlleg, mae'n llosgi'n gyflym ac mae hyn yn amharu ar y blas felly os ydych yn ei goginio gyda nionyn mae'n well ffrio'r nionyn gyntaf cyn ychwanegu'r garlleg a chadw llygad barcud arno!



Mae'n rhaid cael rysáit i orffen ac fe af yn ôl at Raymond Blanc am un o'm ffefrynnau:

**Coesau Cyw Iâr gyda garlleg balsamig a thomatos**



Ffrio **4 coes cyw iâr** gyda **2 llwy bwrdd o olew** mewn padell sy'n addas i'w rhoi yn y ffwrn i gael y croen yn frown (tua 8-10 munud).

Ychwanegu **20 clof o arlleg** cyfan wedi eu plicio, **darnau o deim ac oregano ffres** a rhoi'r badell yn y ffwrn sydd ar 150C/Nwy 2 am 30 munud. Wedyn codi'r cyw iâr allan o'r badell, gorchuddio gyda ffoil a'u cadw'n gynnes.

Gadael y garlleg yn y badell ond cael gwared ag unrhyw saim. Ychwanegu **2 llwy bwrdd o finegr balsamig** a llwy fwrdd o ddŵr. Coginio hyd nes mae'n ludog a'i arllwys dros y cyw iâr.

Coginio **hanner nionyn** wedi sleisio mewn **2 lwy bwrdd olew olewydd** am 3 munud ac ychwanegu **150g ffenigl** wedi ei dorri'n dis am 3 munud ychwanegol cyn rhoi **600g domatos bach** yn y badell.

Gorchuddiwch â chaead a choginio am tua 15 munud yna ychwanegu **sesnin (gan gynnwys pinsiad o siwgr)** a **6 sbrigyn o goriander ffres**. Rhannu'r cymysgedd tomatos ar 4 plât a rhoi coesau'r cyw iâr a'r sudd ar eu pen.

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon (am 10:30 a.m. yn y capel oni nodir yn wahanol):**
[Noder: Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gwrdd yn rhithiol am y tro]

**Mis Tachwedd 2021:**
7 Tachwedd - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14 Tachwedd - Oedfa dan ofal Sian Meinir
21 Tachwedd - Oedfa Sul yr Urdd (dan ofal Ieuenctid yr eglwys)
28 Tachwedd - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts

**Mis Rhagfyr 2021:**
5 Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (5:00 p.m.)
12 Rhagfyr – “Naw Llith a Charol” (5:00 p.m.)
19 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
25 Rhagfyr – Oedfa Bore’r Nadolig (10:00 a.m.)
26 Rhagfyr – DIM OEDFA

---oooOOOooo---

“*Cop*” i ni ers talwm oedd aelod o’r heddlu, a “*chael cop*” oedd cael ein dal gan un ohonynt yn reidio beic heb olau wedi iddi nosi (er y byddai modd “cael cop” gan unrhyw un am unrhyw weithred nad oedd yn gydnaws â chonfensiwn y dydd.)

Bod yn “*ddim llawar o gop*” oedd rhywun nad oedd yn dda am wneud rhywbeth neu’i gilydd.

Gall “*cop*”, yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru (ar lein) hefyd olygu “*pryf cop*”, “*brig*” a “*chorun*”.

Ond rhwng y 31ain o fis Hydref a’r 12fed o fis Tachwedd eleni, bydd i COP, neu yn fwy manwl COP26, ystyr tra gwahanol i’r uchod, wrth i ddinas Glasgow ddod yn ganolbwynt i Gynhadledd fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, a hynny dan Arlywyddiaeth Prydain,

COP am mai “*Conference of the Parties*” ydyw, dan nawdd “*Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd*”, a COP26 am mai dyma’r 26ain Cynhadledd i’w chynnal yn y gyfres (cynhaliwyd y gyntaf, COP1, ym Merlin yn 1995).

Hwyrach y bydd rhai ohonoch yn gyfarwydd â COP3, a arweiniodd at *Brotocol Kyoto*, neu COP21 a arweiniodd at *Gytundeb Paris?*

Does dim dwywaith nad ydi’r paratoadau ar gyfer COP26, gan gynnwys yr holl drafod a fu yn y wasg ac ar y cyfryngau, boed yn gadarnhaol neu’n ddilornus, wedi codi proffil newid hinsawdd yn ein meddyliau.

Fel y gwyddom, gwlad fechan yw Cymru o ran ei harwynebedd a’i phoblogaeth (4.73% o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol [DG]), ond mae’n debyg bod allyriadau carbon ein gwlad o’i phrif ddiwydiannau tua 18.8% o gyfanswm allyriadau’r DG (23.5 miliwn tunnell o nwyon, - 93% o hynny yn deillio o 25 o safleoedd yn unig).

Ac, yn yr asesiad a wnaed gan BBC Cymru, mae traean o’r allyriad yma yn deillio o safleoedd yn Noc Penfro ac Aberdaugleddau sy’n cynnwys pwerdy RWE (yr allyriad uchaf un yn y DG), Purfa Olew Valero a Chanolfan LNG South Hook.

Gwaith Dur Tata ym Mhort Talbot sy’n ail ar restr allyriadau mwyaf y DG.

A dyna ni ar ein pen ynghanol dilema’r economi a chyflogaeth *v* cynhaliaeth a chynaliadwyaeth!

Beth, tybed, sydd gan y wasg a’r cyfryngau enwadol i’w cynnig i’r drafodaeth?

Ym mis Medi, gwnaed datganiad ar ran y 2.6 biliwn o Gristnogion ar draws y byd, gan y Pab Francis, Justin Welby, Archesgob Caergaint, a phennaeth yr Eglwys Uniongred Eciwmenaidd, y Patriarch Bartholomew – y tro cyntaf erioed i’r tri ohonynt wneud y fath ddatganiad – yn apelio ar i lywodraethau’r byd fynd i’r afael o ddifrif â’r argyfwng newid hinsawdd.

“*’Rydym yn galw ar bawb, beth bynnag eu cred a’u barn, i ymdrechu i wrando ar gri’r ddaear a’r tlodion, ystyried eu hymddygiad ac addo gwneud aberth ystyrlon er mwyn y ddaear y mae Duw wedi ei rhoi i ni.*”

“*…colli bioamrywiaeth, diraddio amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd yw canlyniad anochel ein gweithredoedd, gan ein bod wedi defnyddio mwy o adnoddau’r ddaear nag y gall y blaned ei dioddef.*”

“*Mae’r gymuned ryngwladol mewn sefyllfa unigryw i achub ar y cyfle o newid ein ffordd o fyw. Mae hon yn foment dyngedfennol. Mae dyfodol ein plant a’n cartref cyffredin yn dibynnu arnynt.*”

Bydd arweinwyr crefyddol yng Nghymru hefyd wedi rhyddhau datganiadau tebyg cyn i’r Gynhadledd gychwyn.

“*… fel Cristnogion sy’n credu mai Duw sydd berchen ar y ddaear hon a phopeth arni, mae dyletswydd bersonol a chymdeithasol arnom i ymgyrchu a gweithio’n ymarferol i leihau ein niwed i’r ddaear – a hynny ar frys*” meddai’r Parchedig Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.


“*… mae cyfrifoldeb arnom ninnau i newid ein ffyrdd o fyw, gan dderbyn hefyd y bydd galw arnom i wneud aberth ariannol i dalu am fesurau llymach caiff eu cyflwyno i dorri ar danwydd carbon.*”

A chan nad yw “datganiad” yn unig o unrhyw werth, heb ei bartneru â “gweithred”:-

“*… rwy’n galw ar ein heglwysi ni fel Annibynwyr Cymreig – â chymunedau ffydd eraill – i droi at ynni glân ac adnewyddol i gynhesu eu hadeiladau, i blannu blodau a llwyni a choed wrth eu capeli lle bo’n addas, i ddewis teithio ar fysys a threnau cyhoeddus neu geir trydan a hybrid, i gefnogi mudiadau ac ymgyrchoedd sy’n gwarchod y ddaear, ac i ddatgan ein pryder am y bygythiad i’r blaned hardd hon i’n cynrychiolwyr gwleidyddol.*”

“*Gwnes addunedau fil*” medd Morgan Rhys yn ei emyn [Caneuon Ffydd 763] – gobeithiwn mai nid “*dim llawar o gop*” fydd y farn ar drafodaethau COP26 ar derfyn y cynadledda!

# Cyfrol i Ddathlu a Chofnodi Gwaith y Mudiad Meithrin




**Cylch o Hanner Canrif:
1971–2021
Llyfr Dathlu Mudiad Meithrin**
*gol. Mererid Hopwood*

Dyma gyfle i wibio drwy bum degawd yn hanes Mudiad Meithrin, heb os, un o fudiadau pwysicaf a rhyfeddol Cymru. Cawn glywed lleisiau o’r dechrau’n deg hyd heddiw, a chael blas ar rai o’r gobeithion a’r heriau. Er bod y llyfr yn crybwyll ambell ddyddiad a charreg filltir arwyddocaol, nid llyfr hanes na llyfr ffeithiau mohono, yn hytrach llyfr dathlu; dathlu’r weledigaeth, y dyfalbarhad a gweithgaredd y mil a mwy o ddarpariaethau blynyddoedd cynnar Cymraeg sydd erbyn heddiw’n cario enw Mudiad Meithrin ledled y wlad. Mae’n stori i godi calon unrhyw un sy’n caru Cymru, caru’r iaith a charu plant. Mae’n gyfrol weledol, wedi'i dylunio gan Elgan Griffith.

**Gwasg Carreg Gwalch, £12**

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf

## Noson o ddathlu a ffarwelio â'r Fenter

Ffarweliwyd â Guto Roberts y sylfaenydd, Heulyn Rees y Cadeirydd ac Einir Sion y Brif Weithredwraig mewn noson arbennig ar 15fed Hydref. Mae'n diolch yn fawr iddynt am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd. Mae Heulyn Rees yn ein gadael i fod yn Brif Weithredwr Menter Caerdydd ac Einir Sion yn mynd i fod yn ysgogydd y Gymraeg ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn dymuno'n dda i'r ddau ohonynt. Rydym hefyd yn falch iawn o gyhoeddi mai Osian Rowlands fydd y Prif Weithredwr newydd fydd yn dechrau ar ei waith ar yr 22ain o Dachwedd. Mae'r Fenter mewn dwylo saff.

Mae Guto Roberts wedi arwain y Fenter ers ei dechrau ym 1992. Sefydlwyd Menter Taf-Elái yn dilyn adroddiad gweithgor a sefydlwyd yn ystod Eisteddfod yr Urdd Taf-Elái 1991. Tasg gyntaf y Fenter newydd oedd casglu arian i gychwyn cynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Roedd gweithgarwch codi arian yn parhau ar ôl yr Eisteddfod a sicrhaodd hynny sail gadarn i gychwyn datblygu. Derbyniodd y Fenter grant o'r Swyddfa Gymreig a phenodwyd Swyddog Datblygu yn 1993. Guto oedd y sbardun a'r sylfaenydd i'r holl ddatblygiadau a bu'r Fenter yn cael ei rhedeg o'i gartref yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Yn wir, ef oedd cadeirydd gweithgor yr Eisteddfod a'r gâr a welodd gyfle euraid i greu gwaddol gwirioneddol iddi. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio Garth yr Arth, diolchwch i Guto amdano!

Agorwyd swyddfa'r Fenter yn y Tŷ Model, Llantrisant, ac yn fuan datblygodd y Fenter i ddarparu gweithgareddau di-ri yn cynnwys Cynlluniau Chwarae, Clybiau i blant a phobl ifanc yn cynnwys snwcer, drama a phêl-droed. Menter Iaith Rhondda Cynon Taf oedd y cyntaf i greu gwasanaethau plant, gwasanaeth sydd wedi ei fabwysiadu gan sawl Menter arall erbyn hyn. Cynhaliwyd y Raligamps gyntaf yn 1993 ym Mharc Ynysangharad a dyfodd i fod yn ŵyl enfawr Parti Ponty erbyn 1998. Wrth gwrs mae'r ŵyl honno wedi ei hatgyfodi erbyn hyn. Roedd y rhai mwyaf diweddar yng nghanol stryd Pontypridd yn 2018 ac ar daith yng nghymunedau eraill y Sir yn 2019.



Heulyn, Einir a Guto

Taer fu yn troi'r Fenter hon, yn aber
o obaith, yn galon,
troi hefyd y tair afon
yn iaith ar daith yn un don.

Cyril Jones Hydref 2021


Mae Guto wedi parhau i gefnogi'r Fenter gydol yr holl flynyddoedd yma fel Cadeirydd, Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr. Trywel oedd ei anrheg gadael. Anrheg perthnasol iawn i'r gŵr a adeiladodd seiliau cadarn i'r Fenter. Fel gwyddonydd uchel ei barch a dyn sydd bob amser yn adeiladu neu drwsio, mae wedi creu gweithgareddau addysgiadol perthnasol i blant y Sir megis model ryngweithiol o bont Pontypridd a thrên a thrac injan Trevithick! Does dim diwedd i'w weithredoedd na'i gefnogaeth. Mae diolch y Fenter yn ddirfawr iddo. Rydym yn dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad, er y byddwn yn ei golli'n fawr.

Mae Einir Siôn yn symud i swydd newydd yn dilyn 7 mlynedd yn arwain y Fenter. Hoffai pawb yn y Fenter ddiolch o galon iddi am ei holl waith yn y cyfnod hwnnw a dymunwn pob lwc mawr iddi yn y dyfodol.

"Yn dilyn saith mlynedd a hanner, mae fy nghyfnod fel Prif Weithredwraig y Fenter wedi dirwyn i ben. Mae wedi bod yn bleser gweithio o fewn ac ar ran Rhondda Cynon Taf yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad a chodi ei statws o fewn y Sir. Rwyf wedi cael y pleser mwyaf o gydweithio â mudiadau, ysgolion, sefydliadau ac unigolion anhygoel yn ystod y cyfnod hwn ac wedi gwneud ffrindiau oes. Braint oedd arwain tîm arbennig o staff, y rhai presennol a'r rhai a fu. Hoffwn ganu clodydd pob un, yn staff y gwasanaethau plant, sylfaenwyr a swyddogion ein TIMau ieuenctid, swyddogion datblygu a chyllid, gweithwyr llawrydd, aelodau bwrdd a'r gwirfoddolwyr dirifedi. Ffrwyth llafur cariad yw eu cyflawniadau. Mae cyfraniad pawb wedi bod yn allweddol at bob llwyddiant yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf.

Mudiadau cymunedol llawr gwlad yw'r Mentrau Iaith sy'n ymateb i ofynion cymunedau ac yn gweithredu ar eu rhan er mwyn sicrhau twf defnydd y Gymraeg ar draws pob ystod o gymdeithas. Does dim mudiadau tebyg iddynt ac mae'r gwaith diflino sy'n cael ei gyflawni ganddynt yn aml yn anweledig. Mae angen dirfawr am gefnogaeth ariannol ac ymarferol mwy teilwng i'r Mentrau. Dyw ewyllys da ac angerdd unigolion ddim yn ddigon ar ei ben ei hun i gyrraedd y targed o filiwn o ddefnyddwyr y Gymraeg. Rwy'n dymuno pob hwyl i'r rhwydwaith allweddol hwn yn y dyfodol gan fawr obeithio cydweithio gyda nhw yn rhinwedd fy swydd newydd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru."



# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Sefydlu Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton**
Calonogol iawn yw clywed am sefydlu Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi newydd yng Nghilfynydd gyda'r bwriad o roi cyfleoedd i blant a'u rhieni fwynhau a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y gymuned.

Cynhelir y sesiynau yng Nghanolfan Gymunedol Cilfynydd gyda Chylch Ti a Fi yn agor ei ddrysau am y tro cyntaf ar ddydd Gwener, 5ed o Dachwedd rhwng 10yb a 12yp a'r gost fydd £3 y sesiwn.

Croeso i blant iau ddod gyda'u rhieni/gwarchodwyr i'r grŵp Ti a Fi i fwynhau chwarae a gwneud ffrindiau bach newydd, dysgu caneuon bach syml a gwrando ar storïau. Mae hefyd yn gyfle gwych i rieni a gwarchodwyr gwrdd â rhannu profiadau dros baned ac ymuno yn yr hwyl.

Bydd y sesiynau Cylch Meithrin yn dechrau yn ystod mis Ionawr bob bore Llun i Fercher rhwng 9.30yb - 12yp yn ystod tymor yr ysgol, a'r gost fydd £10 y sesiwn.

Nod y Cylch Meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant trwy'r Gymraeg o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig.

Meddai Eurgain Haf Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton: "Rydym yn hynod falch o allu rhannu'r newyddion ein bod wedi ein cofrestru gyda Mudiad Meithrin. Fel pwyllgor bychan o rieni lleol rydym yn angerddol dros roi'r cyfle i bob plentyn yng Nghilfynydd a'r ardal gyfagos i allu chwarae, dysgu a thyfu trwy'r Gymraeg a sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu yn yr ardal. Felly, ymunwch gyda ni ar y daith ac mae croeso cynnes yn eich aros yn y sesiynau."

Bydd gwybodaeth ynglŷn â chofrestru ar gyfer y sesiynau Ti a Fi yn cael ei rannu ar dudalen Facebook @cylchcilfynydd neu mae modd holi am ffurflen drwy e-bostio cylchmeithrin-cilfynydd@outlook.com

**Clwb y Bont**
Diolch i bawb sy wedi danfon eu haelodaeth i'r Clwb yn ddiweddar. Gwyliwch tudalen Facebook y Clwb am ddigwyddiadau ac am wybodaeth ynglŷn â'r diweddara am y gwaith adeiladu.

**Merched y Wawr**
Llawer o ddiolch i Anthony Evans am noson ddiddorol a hwyliog mis diwethaf.

Cyfarfod ar Zoom sy'n digwydd nesaf sef sesiwn o Pilates gyda Mike Ebbsworth, Graigwen. Ymunwch ag aelodau'r gangen nos Iau, Tachwedd 11eg am 7.30p.m.

Byddwn yn croesawu Hannah Roberts, Caerdydd i'n difyrru ym mis Rhagfyr. Cawn gwrdd i ddathlu'r Nadolig nos Iau, Rhagfyr 9fed ( lleoliad i'w gadarnhau.)

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 18fed o Hydref 2021 dechreuon ni ein tymor newydd gyda sgwrs wych gan Heulyn Jones o Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau Prifysgol Caerdydd. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin aeth Heulyn i Ysgol y Dderwen ac yna Bro Myrddin gyda Ken Owens a Rhys Priestland yn gyd-ddisgyblion iddo cyn symud i Gaerdydd i wneud gradd isradd a doethuriaeth. Yna wedi cyfnodau o ymchwil ym Manceinion a Glasgow dychwelodd i Gaerdydd i awyrgylch Cymreig iawn y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau.

Dechreuodd Heulyn drwy esbonio beth yw protein, sef strwythur cymhleth o asidau amino sy'n rhan hanfodol o bopeth byw, a'i rôl yn y clefyd X Fregus (Fragile X Syndrome) lle mae celloedd y corff yn methu cynhyrchu protein arbennig o'r enw FMRP sy'n bwysig i weithrediad cywir celloedd niwron yr ymennydd. Mae y syndrom yn cynhyrchu sbectrwm o anawsterau dysgu o rai lled ysgafn i broblemau difrifol iawn. Mae lleoliad y genyn sy'n gyfrifol am y syndrom wedi ei ddarganfod, ond nid oes triniaeth ar hyn o bryd.

Er mwyn datblygu triniaeth, credir bod rhaid atal cynhyrchiad dau brotein o'r enw LIMK1 a LIMK2, a dyma lle mae'r gwaith caled yn dechrau. Mae cannoedd o gemegion allai atal LIMK1 a LIMK2 ond rhaid dewis y rhai sydd yn pasio nifer o brofion. Rhaid sicrhau bod y cemegyn ond yn gweithredu ar y proteinau cywir. Mae'n bwysig bod y cemegyn hefyd fod yn hydawdd mewn dŵr ac yn gallu gwrthsefyll ensymau o'r afu. Ymhlith gofynion eraill, rhaid bod y cemegyn yn gallu treiddio i'r ymennydd. Mae'n rhaid cynhyrchu pob cemegyn yn y labordy a'i brofi yn drylwyr, ac hyd yn hyn nid yw'r cemegyn perffaith wedi ymddangos. Ond mae sawl un addawol all arwain y ffordd at y driniaeth gyntaf i'r syndrom X Fregus ac efallai clefydau eraill. Rhys Morris

**Llongyfarchiadau**
Pob dymuniad da i Alun Williams, Heol Tyfica sy wedi dathlu pen-blwydd nodedig yn ddiweddar. Ymlaen at yr ymddeoliad!

**Agoriad swyddogol**
Fe ddaeth arweinydd Plaid Cymru Adam Price i Bontypridd ar fore Sadwrn gwlyb i gwrdd â chefnogwyr ac i agor Swyddfa'r Blaid yn y dre. Croesawyd e gan yr A.S. a'r Cynghorydd lleol Heledd Fychan.

**Swydd Ddelfrydol**
Pob lwc i Emily Frowen, Priory Close, Graigwen sy wedi dechre busnes newydd o garco a cherdded cŵn. Mae Emily a'i theulu wedi dwlu erioed ar anifeiliaid. Mae hi'n gyn-ddisgybl Ysgol Evan James a Garth Olwg. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â hi ar Facebook.

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters



**Capel Moreia Hendreforgan**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig nos Sul 24 Hydref i ddathlu can mlwyddiant y capel ac i gofio Miss Mair Thomas. Bu'r gwasanaeth dan ofal y Parchedig Rachel Wheeler. Ie mae'r capel yn gan mlwydd oed gyda chwpwl o gracs fan yma a fan draw ond mae croeso cynnes i bawb bob tro.

Dyma'r tro cyntaf i'r capel fod ar agor ers y pandemic a braf oedd gweld y golau ymlaen am 6 o'r gloch nos Sul. Fe fydd gwasanaethau dwyieithog yn parhau unwaith y mis. Yn anffodus nid oedd y gwasanaeth yn agored i bawb, dim ond i wahoddedigion oherwydd canllawiau'r Llywodraeth.

Yn 2011 Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r 90 mlwyddiant gyda'r capel dan ei sang. Mynnodd Miss Mair Thomas fod gwasanaeth arbennig yn cymryd lle i nodi'r achlysur oherwydd roedd hi'n poeni faint o aelodau fyddai ar ôl ar gyfer y can mlwyddiant ac roedd hi mor gywir - i fod yn onest roedd Mair wastad yn gywir.

Roedd cyflwyniad arbennig yn ystod y gwasanaeth gan Mike John a Millicent Phillips, ar ran "Gilfach Goch War Memorial Trust", o lyfr coffa o'r sawl a gollwyd eu bywydau yn ystod rhyfel.



**Clwb Llyfrau**
Fe fydd yr aelodau yn cwrdd ar Zoom nos Lun, Tachwedd 15fed am 7.00p.m. Y llyfrau i'w trafod yw unrhyw 'glasur 'Saesneg o'r ugeinfed ganrif. Cyfle i ail ddarllen ambell nofel neu i ddewis y gyfrol rydych wedi addo ei darllen ers tro!

# Ysgol Creigiau



**Llangrannog**
Croeso nôl i ddisgyblion Class 6 wedi iddynt dreulio wythnos yn Llangrannog! Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi dangos ymddygiad ac agwedd arbennig drwy gydol yr wythnos. Da iawn chi blant! Diolch yn fawr iawn i Ms Griffin, Mr Williams, Mrs Stone a Mrs Willis am fynd gyda'r disgyblion.

**Cyflwyniad CAVMS**
Mwynheuodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyflwyniad cerddorol rhithwir gan staff CAVMS (Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro). Dysgodd y disgyblion am wahanol offerynnau a mwynheuon nhw wrando arnynt yn cael eu chwarae.

**Pencampwr Traws Gwlad Beicio Cymru**



Ddydd Sul olaf ym mis Medi bu Gwilym, Dosbarth Debyn, yn cystadlu yn ei ras beicio mynydd Traws Gwlad Cymru gyntaf ym mharc beicio Mountain View. Cafodd ddiwrnod llwyddiannus a hwyliog iawn ac enillodd. Mae ei lwyddiant yn ei wneud yn bencampwr Cymru o dan 6 2021 XC MTB. Ardderchog Gwilym!

**Carfan Criced Dwyrain Cymru**
Yn ddiweddar clywon ni fod mwy o ddisgyblion yr ysgol wedi eu dewis i Sgwad Hyfforddi Gaeaf Dwyrain Cymru. Mae Gruff (Dosbarth 6) wedi ei dderbyn i'r sgwad dan 11 a Freya (Dosbarth 5) a Gwennan (Dosbarth 6) i'r sgwad merched dan 13. Gwych!





**DIWRNOD SHWMAE / SU' MAE!**
Fe ddathlon ni ddiwrnod Shwmae/ Su'mae wrth gael hwyl drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrannodd pob dosbarth tuag at fideo sydd wedi ei lanlwytho ar dudalen Trydar yr ysgol: @CreigiauABC. Mae'n werth ei wylio. Da iawn bawb!

**GWASANAETH TÂN**
Yn ddiweddar ymwelodd tri ymladdwr tân o Orsaf Dân Yr Eglwys Newydd â'r ysgol. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5 ran mewn sesiynau yn edrych ar ddiogelwch tân. Ymatebodd y disgyblion yn hyderus ac yn synhwyrol wrth drafod peryglon tân a rôl y gwasanaethau achub. Diolch i Chris, Spencer and Darren am ymweld â ni.



Dosbarth 2 yn gwrando'n astud ar yr ymladdwr tân

**CYFEILLION YR YSGOL**
Ddydd Gwener cyn hanner tymor cafodd y disgyblion gyfle i wisgo mewn gwisg hydrefol neu wisg Calan Gaeaf. Roedd pawb yn edrych yn wych! Diolch yn fawr i'n teuluoedd am eu cyfraniadau hael i Gyfeillion yr Ysgol.



Dosbarth 3 yn mwynhau diwrnod ola'r tymor



Dosbarth 4 yn edrych yn hynod o frawychus!

# Ysgol Evan James

**Llwyddiant ar y cae rygbi**
Llongyfarchiadau i ddau o ddisgyblion blwyddyn 6 am gael eu dewis i fod yn rhan o garfan rygbi Rhondda Cynon Taf. Mae Cori John a Jake Quealey wedi dechrau hyfforddi gyda'r garfan ac maent yn edrych ymlaen at gael chwarae gemau yn fuan. Pob lwc fechgyn.




**Diwrnod Shwmae Su'Mae**
Cawsom ddiwrnod bendigedig yn dathlu Dwirnod Shwmae Su'Mae. Gwisgodd pob disgybl ddillad coch, gwyn neu wyrdd ac fe fuom yn canu a dawnsio gyda Bronwen Lewis. Diweddglo arbennig i'n hwythnos Cymreictod.

**Prysurdeb i'r Senedd**
Mae'r Senedd wedi bod yn hynod o brysur yn cynllunio gwaith y flwyddyn. Maent wedi cwrdd ag AS ein hardal, sef Heledd Fychan i drafod ei gwaith a meddwl am elusennau'r flwyddyn. Dewiswyd 2 elsuen, sef Banc Bwyd Pontypridd a "Help for Heroes" sydd yn helpu aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog sy'n byw ym Mhontypridd.

Yn ogystal, maent wedi cwrdd â Chomisiynydd Plant Cymru, Sally Holland i drafod hawliau plant. Etholwyd ein Llysgenhadon Gwych gan ddisgyblion blwyddyn 6 a'r ffocws y tymor hwn yw lles holl gymuned yr ysgol. Ein llysgenhadon yw Nel Withey-Smith, Jasmine McIntyre a Martha Tudor -Asveld.

**Clybiau, clybiau**
Mae clwb at ddant pawb unwaith eto eleni. Mae disgyblion o'r Derbyn i flwyddyn 6 yn mynychu clybiau ar ôl ysgol. Mae'n fwrlwm yma bob nos gyda phlant yn garddio, dawnsio, chwarae pob math o gampau a llawer mwy. Edrychwch ar ein gwefan os hoffech weld beth rydym yn ei gynnig.



Brawychus iawn Dosbarth 6!

## Cerdd fuddugol am Saethu ar Doriad Dydd

Martin Huws o Ffynnon Taf enillodd Gadair Eisteddfod y Rhondda gafodd ei chynnal yn rhithiol. Y gofynion oedd cerdd neu gasgliad o gerddi ar y mesurau rhydd neu gaeth heb fod yn fwy na 35 llinell ar y testun 'Yfory'.
Dywedodd y beirniad, Tudur Dylan, fod 20 wedi cystadlu a bod neb yn 'gwbwl ddi-glem'.
'Yng ngherdd Ar Doriad Dydd mae 'na ddefnydd effeithiol o'r wers rydd gynganeddol. Mae'r bardd yn mynd â ni nôl i Fflandrys adeg y Rhyfel Byd Cynta ac mae milwr yn cofio ei ieuectid pan oedd yn chwarae criced. Y wal lle oedd yn chwarae criced sy'n dod yn thema gref yn y gerdd. Mae'r bardd yn cymharu ergydion y bêl griced efo ergydion y gynnau. Mae'n dod nôl at y wal yn y diwedd, wal sy'n cynrychioli ei farwolaeth.
'Yn sicr, mae hon yn gerdd rymus ac wedi ei saernïo'n effeithiol tu hwnt ac mae'n llwyr deilwng o'r gadair eleni. Llongyfarchiadau mawr.'
Dywedodd Martin: 'Yn y gerdd 'wy'n trial cyfleu meddyliau'r milwr y noson cyn y dienyddio. Mae yn ei gell gondemniedig ac yn gallu gweld y wal lle bydd yn cael ei saethu'n farw.
'Mae hanes y Milwyr gafodd eu Saethu ar Doriad Dydd yn ddiddorol ac rwy'n casglu deunydd ar gyfer cyfrol.



Cofeb Milwyr gafodd eu Saethu ar Doriad Dydd ger Alrewas, Swydd Stafford

'Rhwng 1914 a 1918 cafodd mwy na 300 o filwyr gwledydd Prydain a'r Gymanwlad eu dienyddio am eu bod yn euog o droseddau fel llwfdra ac encilio.
'Erbyn hyn, mae'n amlwg nad oedd rhai milwyr yn gallu ymdopi ag amgylchiadau uffernol y llinell flaen ac wedi ffoi o'r frwydyr er gwaetha'r canlyniadau. Yr enw ar eu cyflwr heddi fyddai anhwylder straen wedi trawma neu PTSD. Os oedden nhw'n cael eu dedfrydu, fe fydden nhw'n cael eu clymu wrth bostyn a'u saethu'n farw, weithiau gan gydfilwyr o'r un platŵn.
'Yn 2006 fe gafodd y milwyr bardwn ffurfiol ar ôl ymgyrch eu teuluoedd am flynyddoedd. Mae rhai wedi dadlau fod y gosb eithaf yn anaddas ar gyfer troseddau fel llwfdra neu ffoi o'r frwydyr tra bod ambell un wedi dweud na ddylai ein hagwedd foesol ni heddi feirniadu trefn filwrol cyfnod arall.'

Hwn yw'r ail flwyddyn i Martin ennill cadair Eisteddfod y Rhondda. 'Diolch i'r pwyllgor am drefnu eisteddfod ar adeg heriol,' meddai 'ac i'r cystadleuwyr a'r beirniad. Mae'r digwyddiad yn hwb i'r iaith yn ein cymunedau.'

Dywedodd y trefnwyr fod mwy na 200 o gynigion mewn pedair cystadleuaeth ar ddeg. Ymhlith noddwyr yr eisteddfod roedd y Fenter Iaith a'r cyngor sir a noddwr y gadair oedd Cymdeithas Gymraeg Treorci.
Dyma'r gerdd:

**Yfory**
*Poperinghee, 1917*
Y wal, hi a welaf,
nhw fydd yn gwylio targed â llyged llaith.

Ddim yn angof 'yn atgofion:
dyddie diniwed, sialc yn wiced ar wal.
Yn ben ar deyrnas y bêl,
ei gyrru'n glatsh at y gorwel,
yn union fel ergydion y gad.
Crwt anghyflawn, 'y myd yn llawn, yn llon.

'Wy'n aros iddi nosi.

Diléit y cadfridog yw dileu,
cilwenu cyn malu gobeithion milwr
fel damshil ar whilen.
Ei lofnod heb wewyr yn fyr:
saethu'n farw.

Sŵn pêl fel angerdd sy'n pylu.

Dros y Sianel y des i faeddu'r gelyn.
Bydd gwawr ar led cyn ergydion bwledi
ac ataf fi anela, tania 'y mhlatŵn.

Loetran ma' cysgodion amdanaf,
y nos yn cripad yn iasol.

Y wal, hi a welaf:
wal ddi-liw 'y niwedd.
Yn anochel, nychaf.

Mae'r feirniadaeth yn llawn ar https://www.facebook.com/EisteddfodYRhondda



Y man dienyddio, Poperinghee, Gwlad Belg

## Mas o'r Drâr o'r Diwedd!!!!!!

Yn ystod "Y Clo", geson ni ddicon o amser i itrech ar natur. Hales i dipyn o amser yn gwylio'r Pili Pala—"y bow tei ar wddf yr awel", sy'n mynd trwy tri newidiad yn ystod ei fywyd byr. Wel, ryw naw mlynedd yn ôl, fe geso i ryw "fetamorffosis"---mynd i'r gwely un nosweth yn berson weddol normal, a dihuno lan yr ail fore fel bardd!!!!! — a na, 'dy ni ddim cweit yn bobol normal. Os welwch chi rhywun m'wn caffi ne dafarn yn ishte fanna yn cownto ar ei fysedd, ---bardd sy na garantîd!! Cownto sillafe mae e, saith ar gyfer englyn, yr un peth i gywydd, a lan i ddeg i hir a thoddaid. Na pham geso ni ddeg bys siwr o fod, falle o'dd duw yn cynganeddu!!! Diolch bod dim mesur sy' ishe mwy na deg sill!!!!



Fe ddechries i farddoni drwy gystadlu yn yr eisteddfote diri ma sy'n ffenomenon flynyddol yn ein gwlad fach ni. Erbyn hyn ma 'da fi un-ar-ucen o gadeire (bach) am gerddi wedi'u hennill rhwng 2011 a 2019, a saith o'r rheiny yn 2015, nes bod y cylchgrawn "Steddfota'n roi'r pennawd, "O Gadair I Gadair"!!!!!!! Ma un ne' ddou steddfod yn roi cater FAWR, dw i ddim 'di llwyddo ca'l un o'r rheiny eto, ond dw i wedi meddwl whilo saer i fwro rhain i gyd miwn i un i fi ga'l y nymuniad!!!!!
Wel, yn ystod Y Clo, dyma benderfynnu yn gynta' troi'r cerddi miwn i lyfr, yn lle eu bod nhw'n ishte yn y drar, ac yn ail, bod yr elw yn mynd at Cymorth Cristnogol gan fod y mudiad yn dathlu 75 mlyned o fodolaeth eleni. Dyma un o fendithion y cynod ryfedd yma, ei fod wedi esgor ar gymaint o waith creadigol ar hyd a lled y byd.
Enw fy nghyfrol i yw "Cerddi'r Cadeire Bach", sef yr adran gynta. Ffrwyth cystadleuthe Cymdeithas Eisteddfode Cymru yw y rheiny. Nawr ma pryddeste cadeiriol diri y Genedlaethol wedi ymddangos mewn llyfre, ife dyma'r tro cynta i gerddi cadeiriol yr eisteddfote bach ga'l eu casglu mewn llyfr 'sgwn i? Ma 'na chwech adran arall, a llawer o'r rhain wedi bod yn fuddugol hefyd:- Telynegion, Sonedau, Englynion, I Ffrindie, Cerddi'r Clo ac adran Y Nadolig. Cyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwach. Mae ar ga'l yn ambell siop Gymra'g sy'n ddicon caretig i'w arddangos i fi. Gallwch archebu drwy E Bost:- tanymarian2@btinternet.com
Presant 'Dolig ?!!!!

Hannah Roberts

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Y Cynhaeaf**
Diolch i Mr Coleman am ddod i gynnal gwasanaethau Cynhaeaf gyda'r disgyblion. Diolch hefyd i bawb am eu cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd. Buoch yn garedig iawn!

**Talent**
Llongyfarchiadau i'r brodyr Olly a Harry Mathews ar gael eu dewis i chwarae rygbi, pel-droed a nofio i'r Sir! Am deulu talentog!!



**Yr Ysgol Newydd**
Aeth aelodau blwyddyn 5 a 6 y Cyngor Ysgol i astudio cynlluniau'r Sir ar gyfer yr Ysgol newydd. Roedd pob un yn edmygu'r cynlluniau- yn enwedig yr holl ardaloedd tu allan a'r gwyrddni!



**Bathodyn Brownies**
Llongyfarciadau enfawr i Emily Pearce am ennill cystadleuaeth Brownies Pontypridd i ddylunio bathodyn arbennig i ddathlu eu penblwydd yn 70 oed - yr un oed â PSN!! Am gynllun hyfryd!



**Shwmae!**
Bu'r Ysgol gyfan y dweud 'Shwmae' a 'Sumae' i'w gilydd ganol mis Hydref i ddathlu diwrnod 'Shhwmae Sumae'. Cafwyd hwyl wrth ddylunio, chwarae gemau, canu a ffilmio.

**Penblwydd PSN yn 70**
Ar ôl yr holl baratoi, fe gyrhaeddodd y diwrnod arbennig- Penblwydd Ysgol Gynradd Gymraeg Pont-Siôn-Norton yn 70 mlwydd oed! Waw! Nid diwrnod ond wythnos o hwyl cafodd y disgyblion! Daeth Seren a Sbarc i ddweud helo wrth y plant ac roeddynt wrth eu boddau. Cafwyd ymweliad hefyd gan Mr Urdd yn ei wyn, coch a gwyrdd.

Bu'r plant wrth eu boddau yn canu a



dawnsio, chwerthin a joio wrth i Martyn Geraint, cyn-ddisgybl yr Ysgol, ddod i wneud sioe llawn hwyl a sbri i holl ddisgyblion yr Ysgol.



Yn y dosbarthiadau, bu'r plant yn astudio hanes yr Ysgol, ysgrifennu cerddi a pharatoi at bartïon dosbarth ar y diwrnod arbennig. Diolch i Ffrindiau PSN am baratoi y danteithion,



y gacen a'r holl addurniadau, yn cynnwys balwnau bendigedig ar gyfer y parti.

Cafwyd cyfle i wylio ffilm hanes yr Ysgol a recordiwyd gan y disgyblion cyn yr Haf. Diolch i bob disgybl am yr actio a'r canu arbennig.

Dadorchuddiwyd y murlun arbennig a grëwyd gan yr artist a'r cyn-ddisgybl, Gemma Fala gan ddefnyddio syniadau ein disgyblion. Mae'n edrych yn wych yn y neuadd!



Ar ddiwrnod y dathlu mawr, daeth Mrs Todd, Mrs Williams, Mrs Evans, Mr Williams a Mr Evans ein cyn benaethiaid i ymuno gyda Miss Stephens i ddathlu'r achlysur trwy edrych ar hen luniau, adrodd hen hanesion ac ateb cwestiynau'r plant. Rydym ni mor falch eich bod wedi gallu dod i ymuno yn yr




hwyl gyda ni. Gobeithiwn allu gwahodd cyn staff i'r Ysgol yn nhymor yr Haf i barhau gyda'r dathlu.

Diolch enfawr i'n cyn-ddisgybl Aneirin Karadog am yr englyn teimladwy i ddathlu'r achlysur. Mae'r englyn hyfryd wedi ei phlethu i mewn i'r murlun.

Englyn Aneirin Karadog

Yn d'ysgol di, sgŵl y daith, mae enfys
Yn gymanfa o obaith;
Dere i wenu drwy'r heniaith
Ym Mhont-Siôn-Norton ein hiaith.

**Cerdd Ysgol PSN yn 70**

Mae Pont Sion Norton yn dathlu,
Penblwydd cawn hwyl a sbri.
Cawn fwyta cacen blasus,
Cewch ddathlu gyda ni.

70 yw oed yr ysgol
Y Tai Crwn yw ein dosbarth ni
Gwisgwn llwyd a gwyrdd bob dydd,
Miss Stephens yw pennaeth ni.

Yr Iaith Gymraeg yw iaith yr ysgol,
Mrs Cotter sy'n ein dysgu
Athrawon caredig a gwych sydd gennym
A dyna Pont Sion Norton i chi.

Gan Ela-Mai blwyddyn 5.

Mae ysgol hen rhwng y mynyddoedd
Ac yn troi'n 70 cyn bod hir.
Mae'r plant i gyd yn neidio ar eu traed
I ddathlu penblwydd 70 oed.

Mae'r ysgol yn lliwgar fel enfys,
Mae'r ysgolion eraill yn genfigennus.
Mae ysgol Pont Sion Norton ym Mhontypridd
A lle i chwarae pob awr or dydd.

Efo llawer o atgofion melys a doniol
a lleisiau yn canu'n swynol,
Penblwydd hapus Pont Sion Norton
Gobeithio bydd mwy o atgofion!

Gan Lloyd Chalk blwyddyn 6.



# Ysgol Gymraeg Castellau

**Thema**
Y tymor hwn yn Ysgol Castellau rydym yn brysur yn dysgu am ein thema cyffrous ‘Llyfr, Llwyfan a Sgrin’. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i werthuso a chynhyrchu cyfryngau amrywiol ac yn cael perfformio. Ymysg ystod o brofiadau newydd mae bl.1 wedi dysgu sut i greu ffilmiau stop-motion a bl.3 wedi dylunio setiau a phypedau.



**Cynghorau**
Rydym yn falch o fod wedi ethol ein cynghorau 4 Diben eleni a fydd yn cefnogi athrawon wrth hyrwyddo’r cwricwlwm newydd. Mae ein cyngor Creadigol eisioes wedi trefnu sioe dalent, a’n cynghorau Iach, Gwybodus ac Uchelgeisiol yn brysur yn meddwl am syniadau i wella’r ysgol.



**WNO**
Rydym yn lwcus o’r cyfle anghygoel i fod yn rhan o gynllun ysgolion Opera Cenedlaethol Cymru, a chroesawu’r cantorion Zoe a Dyfed yma’n wythnosol i gynnal gweithdai gyda disgyblion bl.5 a 6. Mae’r athrawon hefyd wedi ymuno mewn gyda’r canu!

Braf iawn hefyd oedd cael mynd ar ein trip cyntaf eleni gyda bl.5 a 6 i Ganolfan y Mileniwm i weld cyngerdd ysgolion gan yr Opera Cenedlaethol. Cafodd y disgyblion glywed cerddorfa lawn ac arias o operau enwocaf y byd oedd yn brofiad bythgofiadwy i’r disgyblion.



**Gweithdai Dawns**
Yn ogystal a chanu mae disgyblion wedi bod yn datblygu eu sgiliau dawnsio mewn amryw o arddulliau. Cyn hanner tymor cafon weithdai dawns i gyfeiliant sioeau cerdd. Diolch i Nicola a Maddie o Academi Ddawns NBA am ddod i’n hyfforddi a rhoi cyfle i’r disgyblion ddangos eu talentau!



**Hello Yellow**
Braf oedd gweld yr ysgol gyfan wedi gwisgo mewn melyn i gefnogi ymgyrch ‘Hello Yellow’ i godi arian at elusen ‘Young Minds’. Mwynhaodd y Cyfnod Sylfaen helfa drysor felyn a dawnsio yn nail yr hydref. Mae CA2 wedi bod yn cael gweithdai meddwlgarwch gyda Liz Brillante ac yn datblygu sgiliau i reoli eu hemosiynau.



**Comin Tynant**
Mae ein disgyblion egwyddorol ym mlwyddyn 3 wedi bod yn ran o gynllun hynod o gyffrous i ailgyflwyno gloynod byw Britheg y Gors i’n coedlan lleol, Comin Tynant. Casglodd y disgyblion hadau ‘Tamaid y Cythraul’ a byddant yn eu plannu yn ein hysgol yn barod i’w ail-blannu yn y flwyddyn newydd. Ffilmiwyd y profiad gan raglen deledu ‘Weatherman Walking’ felly cadwch lygad mas am ein disgyblion ar y rhaglen!



**Cynhaeaf**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael i’n casgliad cynhaeaf ar gyfer Banc Bwyd Beddau. Mae’r dosbarth Meithrin wedi bod yn creu crefftau hydrefol, bl.1 wedi bod yn brysur yn coginio bara pwmpen blasus, a’r ysgol gyfan wedi bod yn ceisio dyfalu pwysau y bwmpen enfawr!





# Cylch Llyfryddol Caerdydd

Mae’r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf. I dderbyn y ddolen i ymuno â’n cyfarfodydd ar Zoom anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James: JamesEW@caerdydd.ac.uk

***Gwener, 19 Tachwedd 2021***
Holi Megan Angharad Hunter, enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, am ei nofel arobryn, *tu ôl i’r awyr.*

# Ysgol Garth Olwg

### Ysgol Isaf Garth Olwg

Mae pawb wedi ymgartrefu nôl yn dda iawn yn yr ysgol eleni ac rydym wedi cael dechrau da i'r tymor. Rydym yn astudio 'slawer dydd yn Yr Ysgol Isaf ar hyn o bryd ac mae pawb wrth eu boddau yn dysgu am yr hen ddyddiau. Mae'r dosbarth Meithrin a Derbyn wedi bod yn golchi dillad fel oeddent yn arfer gwneud. Bu Blwyddyn 1 a 2 ar wibdaith i Barc Treftadaeth y Rhondda i ddysgu am byllau glo yn Ne Cymru a chafodd Blwyddyn 3 a 4 ymweliad gan gwmni perfformio 'Mewn Cymeriad' a oedd yn cynnal gweithdy ar fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.







### Helo Melyn

Bu disgyblion yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ar ddiwrnod Helo Melyn trwy wisgo dillad melyn i'r ysgol. Llwyddodd yr ysgol i godi £843.82 tuag at yr achos. Da iawn bawb





### Cymraeg i rieni

Cafodd sesiwn blasu'r Gymraeg ei chynnal i rieni'r hanner tymor hwn er mwyn iddynt allu ymarfer y Gymraeg gyda'u plant sydd yn yr ysgol. Roedd y sesiwn yn fuddiol tu hwnt ac yn llawn hwyl a diolch yn fawr i Mrs Hughes am gynnal y sesiwn. Gobeithio y byddwn yn medru cynnal sesiwn debyg yn y dyfodol.



### Gwibdaith Blwyddyn 5 a 6

Ar Fedi'r 24ain, fe aeth disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 ar wibdaith i Fae Caerdydd. Bu'r criw ar daith cwch o amgylch y bae yn dysgu am nodweddion dinesig yr ardal. Ar ôl cinio aeth pawb i'r ganolfan fowlio gyfagos am gêm gystadleuol iawn, cyn gwario eu harian poced ar y peiriannau difyrru ar ddiwedd diwrnod hynod bleserus.

### Shwmae Su'mae





Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae ar y 15fed o Hydref. Bu disgyblion yr Ysgol Isaf yn chwilio am ddreigiau mewn helfa drysor, creu posteri, canu caneuon a gwisgo coch gwyn a gwyrdd i ddathlu. Cafwyd cwis Kahoot i ddisgyblion yr Ysgol Ganol, Uchaf Hŷn ac roedd yr Ysgol Hŷn wedi trefnu gweithgareddau i Flwyddyn 7. Roedd hi'n



ddiwrnod llawn hwyl a sbri ac yn gyfle gwych i'r disgyblion ymfalchïo yn eu Cymreictod.

### Wythnos Ieithoedd Garth Olwg

Fel sydd bellach yn draddodiad yma'n Ysgol Garth Olwg, rydyn ni wedi cynnal wythnos ieithoedd er mwyn dathlu a hyrwyddo'r ieithoedd yr ydym yn eu siarad yn yr ysgol. Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau eu hunain wrth siarad ieithoedd gwahanol yn ogystal â thrafod pwysigrwydd ieithoedd yn ystod gwersi pynciau eraill. Ar ddydd Llun, roedd yr ysgolion Isaf a Chanol wedi cymryd rhan mewn cystadlaeaeth *Bake Off*. Hyfryd oedd gweld yr holl gacennau blasus yn llifo mewn i'r ysgol. Roedd rhai disgyblion wedi pobi cacennau traddodiadol o wledydd gwahanol tra bod eraill wedi ymarfer eu sgiliau addurno. Mae'r disgyblion yn disgwyl yn eiddgar am y canlyniadau a'u gwobrau! Braf hefyd oedd gweld y staff yn cymryd rhan gyda Miss Gunn yn gystadleuol iawn!

Uchafbwynt yr wythnos oedd y diwrnod gwisg ffansi ar ddydd Iau. Roedd disgyblion yr ysgolion Isaf a Chanol wedi gwisgo fel pethau a phobl o wledydd eraill. Unwaith eto, roedd y staff wedi ymuno mewn â'r hwyl ac roedd yn braf cael bach o wisg ffansi nôl yn yr ysgol.

Yn ystod y gwersi Ffrangeg, roedd y



disgyblion wedi dysgu ychydig o ffeithiau am y Tŵr Eiffel. Yna, cafodd y disgyblion gyfle i adeiladu fersiwn eu hunain o'r Tŵr Eiffel gan ddefnyddio sbageti a *marshmallows* – tasg greadigol a blasus. Roedd y staff a'r disgyblion wir wedi mwynhau digwyddiadau a dathliadau'r wythnos ac mae pawb yn edrych ymlaen at wythnos ieithoedd 2022 yn barod!



# Ysgol Garth Olwg
## (Parhad o dudalen 10)

**Prosiect Auschwitz**



O ganlyniad i gyfyngiadau COVID 19, symudodd 'Lessons from Auschwitz' at lwyfan ddigidol fel llawer o brofiadau eraill i fyfyrwyr eleni. Ar ôl clywed gan fyfyrwyr blaenorol am yr effaith sylweddol cafodd y prosiect arnynt, fe wnes i, a 3 disgybl arall benderfynu ymuno â'r prosiect gan neilltuo cyfran fawr o'n hamser i addysgu ein hunain am yr Holocost. Mae hon wedi bod yn siwrnai mor fuddiol i mi gan y bu llawer o achosion lle cefais fy synnu gan y wybodaeth sy'n cael ei dysgu, rwy'n wirioneddol teimlo y bydd y wybodaeth ges i yn darparu sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn amhrisiadwy i mi gyda fy astudiaethau yn y dyfodol. Rwy'n credu bod y cyfle hwn o fudd sylweddol i mi gan iddo roi mewnwelediad a gwybodaeth i mi o'r Holocost y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth wrth wrando ar brofiadau o oroeswyr a chyfle 3D i ymweld ag Auschwitz.

Yn bersonol, yr agoriad llygad fwyaf yn ystod y cyfarfodydd oedd graddfa'r Holocost. Mae ceisio deall niferoedd ac ystadegau'r marwolaethau yn anodd wrth drafod yr Holocost. O ganlyniad, roedd cael cyfle i drafod storïau unigolion a rhoi wyneb i'r bodau dynol a gafodd eu heffeithio wedi gwneud i mi sylweddoli bod pawb sy'n ymwneud â'r Holocost fel bodau dynol unigol, gan gynnwys dioddefwyr, cyflawnwyr a chydweithredwyr yn rhoi'r Holocost mewn persbectif cwbl newydd i mi. Gwnaeth ddyneiddio'r digwyddiadau daflu golau newydd ar yr Holocost a'r ffordd roeddwn i a fy nghyd ddisgyblion yn trafod yr Holocost. Yn ystod modiwl olaf y prosiect 'Forever Kitty Hart-Moxon', cafwyd cyfle i wrando ar brofiad personol Kitty. Angorodd hwn y syniad ymhellach bod pob dioddefwr yn berson, gyda theulu a theimladau. Fe wnes i hefyd werthfawrogi'r cyfle i ymweld ag Auschwitz trwy ddefnyddio sbectol 3D. Cafwyd cyfle i ddeall dinistr yr Holocost ar raddfa cwbl newydd. Mae atgoffa ein hun o hyn yn helpu pobl i ddyneiddio'r digwyddiadau ofnadwy a ddigwyddodd yn y cyfnod ac yn helpu i atal unrhyw beth tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Dyma pam rwy'n credu'n gryf bod dysgu am yr Holocost, a lledaenu ymwybyddiaeth yn hanfodol, mae hyn hefyd yn ffaith sy'n cyfrannu pam y penderfynais gymryd rhan yn y 'Lessons from Auschwitz' Gan Phoebe Colson 13C1

**Cofio Aberfan**

Fel prosiect rhwng Ysgol Garth Olwg a'r Ganolfan Gydol Oes penderfynwyd cofio am drychineb Aberfan a ddigwyddodd 55 mlynedd yn ôl. Mae'r Ysgol gyfan wedi bod wrthi yn derbyn gwersi i gofio a thalu teyrnged i'r holl blant a phobl a fu farw yn ystod y trychineb. Cynhaliwyd gweithdai celf



o fewn y Ganolfan Gydol oes i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Cafwyd cyfle i greu darluniau trwy ddefnyddio cerddoriaeth fel sbardun. Mae'r gwaith yma wedi'i arddangos o fewn y Ganolfan gydol Oes a bydd yna tan ddiwedd yr hanner tymor. Dewch draw i'w weld!

Cafodd ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 wersi Dyniaethau i ddysgu am hanes y trychineb ac i ddeall y rhesymau dros yr hyn a wnaeth ddigwydd. Hefyd cafwyd cyfle i ysgrifennu disgrifiadau o fewn y gwersi Cymraeg ac ysgrifennu cerddi yn eu gwersi Saesneg.



Hefyd penderfynodd y gyfadran Gelfyddydau Mynegiannol wneud cynhyrchiad bach er cof am y digwyddiad. Cynhyrchwyd murlun mawr o Aberfan o fewn y gwersi Celf, a defnyddiwyd geirfa briodol fel prif ffocws o fewn y gwersi Dylunio & Thechnoleg. Yn ogystal ysgrifennwyd a pherfformiwyd sgriptiau o fewn y gwersi drama a chafwyd cyfle i wneud dawns greadigol i adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd. Hefyd buodd pawb yn rhan o'r côr a chanu 'Calon Lân' o fewn y gwersi cerddoriaeth. Buodd côr blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn rhan o gloi'r perfformiad gyda'r gan 'Yfory'.



Perfformiodd fi a phedwar disgybl arall o flwyddyn 12 fonologau a chafodd eu hysgrifennu ar ôl i ni fel dosbarth Drama Lefel A ddarllen cyfweliadau gyda goroeswyr





y trychineb. Roedd y pedwar monolog wedi'i selio ar Hettie Williams, Karen Thomas, Len Haggett a Collier Gerald Tarr.

Gwelwyd hyn oll yn dod at ei gilydd fel perfformiad er cof am y digwyddiad ar ddydd Llun, y deunawfed o Hydref, lle gwnaeth ddisgyblion o bob blwyddyn yr Ysgol ddod at ei gilydd ar lwyfan Garth Olwg unwaith eto. Dyma oedd ein cyfle gyntaf i berfformio yn fyw o flaen cynulleidfa mewn bron i ddwy flynedd, ac roedd yn fraint bod ein perfformiad cyntaf nôl yn cofio am rywbeth mor bwysig yn ein hanes ni fel gwlad.

Gan Beca Roberts, Blwyddyn 12

**Llwyddiannau Chwaraeon**



Llongyfarchiadau i Rhys Britton, un o'n cyn-ddisgyblion ar lwyddo i ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Seiclo Trac y Byd! Mae'r holl waith caled a'r ymarfer wedi talu ffordd!



Llongyfarchiadau enfawr i Kara Bennett, Blwyddyn 10 am ddod yn ail yn Ras Teulu Bae Caerdydd.



Llongyfarchiadau i Eurion John, Blwyddyn 10 am ennill y fedal aur yn y ddisgen a'r fedal arian yn y waywffon ym Mhencamp-wriaethau Cymru!




Llongyfarchiadau i Josh Jackson a Tomos Graham, Blwyddyn 6 sydd wedi'u cynnwys yng ngharfan rygbi Ysgolion Pontypridd o dan 12 am y tymor hwn.



Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu dewis i garfan rygbi Ysgolion Pontypridd o dan 15 y tymor hwn: Ben Huxtable, Steff Emmanuel, Iestyn Thomas, Morgan Edwards, Louie Owen ac Ethan Forkin.

Llongyfarchiadau i Evan McCarthy, Blwyddyn 8 sydd wedi cael ei ddewis i fynychu gwersyll ymarfer pêl-droed ar draws De Cymru o dan 13 a 14.




Llongyfarchiadau i Sebastian Williams, Blwyddyn 9 sy'n chwarae i dîm pêl-fasged Cymru o dan 14!

## Ysgol Llantrisant

**Diwrnod Shwmae Su' mae**

Cafodd y plant lawer o hwyl wrth ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg, addurno cacennau a bisgedi a chynllunio sticer newydd sbon i'r ysgol i er mwyn gwobrwyo plant am siarad Cymraeg yn dda.


























**Pontio Llanhari**

Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 6 ddau ddiwrnod pontio yn Ysgol Llanhari. Cafodd y plant gyfle i gael blas ar wersi Cerddoriaeth, Drama, Dylunio a Thechnoleg a Gwyddoniaeth. Diolch yn fawr i'r staff am gynnig yr holl brofiadau yma. Mae'r plant hefyd wedi bod yn mwynhau gwersi Sbaeneg yn yr ysgol.













**Nigel Size of Wales**

Daeth Nigel Little i siarad â rhai o ddisgyblion yr Adran Iau i drafod sut all y plant ofalu am yr amgylchedd ac am newidiadau hinsawdd a chynhesu byd-eang. Cafodd disgyblion Blwyddyn 4 hefyd hwyl wrth ddysgu am y coedwigoedd glaw.





## Myfyriwr o Thomastown yn ennill Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies y Coleg Cymraeg

Owen Johnston o Thomastown, ger Tonyrefail yn Rhondda Cynon Taf, ydy enillydd Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni.



Mae'r ysgoloriaeth, gwerth £3,000 dros dair blynedd, ar gael i ddarpar fyfyrwyr o ardaloedd Meirionydd a Rhondda Cynon Taf sy'n bwriadu astudio o leiaf 66 y cant (neu 80 credyd y flwyddyn) o'u cwrs gradd ym maes y Gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Owen, sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Llanhari, wedi derbyn lle i astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Wrth dderbyn yr ysgoloriaeth, meddai Owen: "Braint o'r mwyaf ydy derbyn Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies. Bu'n arloeswr hyd ei oes, ac yn ysbrydoliaeth i bawb sy'n dymuno gweld dwyieithrwydd wrth wraidd ein system gyfreithiol. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru, felly mae'n naturiol bod y Gyfraith yn cael ei thrin a thrafod yn ein hiaith ni. Hoffwn ddiolch i deulu'r diweddar Gwilym Prys Davies, ac i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, am fy nghefnogi gyda'r cymorth hwn."

Dywedodd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg: "Mae angerdd Owen tuag at y Gymraeg, a'r Gyfraith mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig yn amlwg iawn ac felly mae'n bleser mawr gen i ar ran y Coleg ei longyfarch ar ennill Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies eleni. Dymunwn bob llwyddiant i Owen ym Mhrifysgol Aberystwyth a dwi'n siwr y bydd yn gwneud cyfraniad arbennig yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol ac yn gaffaeliad i Adran y Gyfraith."

Sefydlwyd Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies er cof am y gŵr o Feirionydd a weithiodd fel cyfreithiwr yn ardal Pontypridd cyn dilyn gyrfa fel gwleidydd blaenllaw yn Nhŷ'r Arglwyddi.

# Ysgol Tonyrefail

**Llysgenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru**
Ein Llysgenhadon Gwych newydd eleni yw Ala Czernecka ac Evan Fletcher o Flwyddyn 6. Roeddynt wedi mwynhau bod yn rhan o weminar gyda Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, yn dysgu am hawliau plant. Bydd y ddau yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ymysg disgyblion yr ysgol.




**Llysgenhadon Efydd – Chwaraeon Rhondda Cynon Taf**




Llongyfarchiadau i Lia Balbini a Cohen Allen ar gael eu dewis i fod yn Lysgenhadon Chwaraeon yr ysgol eleni. Treuliodd y ddau ddiwrnod cynhyrchiol yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen yn hyfforddi sut i ymgymryd â'u dyletswyddau yn yr ysgol. Daeth y ddau yn ôl i'r ysgol yn llawn syniadau ac yn barod i rannu gemau newydd gyda phlant eraill.

**Gwasanaethau Diolchgarwch**
Cynhaliwyd gwasanaethau i ddathlu Diolchgarwch a chafwyd cyfraniadau amserol gan y dosbarthiadau. Fel rhan o'r dathlu daeth plant a chyfraniad o fwydydd ar gyfer banciau bwyd yr ardal sef: 'Lighthouse Project' yn Nhonyrefail a Chanolfan Gymunedol Gilfach Goch. Cafwyd ymateb ardderchog a diolch yn fawr i bawb am eu haelioni.

**Diwrnod Shwmae/ Su'mae**
Roedd yr ysgol yn llawn bwrlwm wrth ddathlu Diwrnod Shwmae / Su'mae - gydag aelodau di-Gymraeg o'r staff yn gwneud ymdrech arbennig i siarad mwy o Gymraeg gyda'r plant. Cafwyd cefnogaeth ardderchog gan y rhieni yn ogystal, gyda nifer wedi danfon clipiau fideo i'r ysgol ohonynt yn ymarfer siarad Cymraeg gyda'u plant gartref – gwaith gwych! Trefnodd y Criw Cymraeg fod




Dosbarth Derbyn yn dathlu Diwrnod Shwmae



Tania'r gogyddes yn dathlu Diwrnod Shwmae

pob plentyn yn cael copi o 'Gwledd y Nadolig', sef catalog Llyfrau Cymraeg, i fynd adref yn ogystal â rhestr o'r siopau lleol sy'n gwerthu llyfrau Cymraeg.



**Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn**
Mae Blwyddyn 4 a 5 wedi bod wrthi yn brysur yn plannu bylbiau fel rhan o brosiect Bylbiau'r Gwanwyn Amgueddfa Cymru 2021- 22. Byddant yn brysur yn ystod y flwyddyn i ddod yn casglu data am y bylbiau a'i rannu gyda'r amgueddfa.

**Mwynhau'r Hydref**
Mae'r gwahanol ddosbarthiadau wedi bod yn mwynhau dyfodiad tymor yr hydref i Donyrefail ac yn enwedig cwymp y dail. Mae llawer o hwyl i'w gael wrth gasglu gwahanol ddail! Maent hefyd wedi bod yn gwneud cawl i'w cynhesu wrth i'r tywydd oeri!



Paratoi i blanu bylbiau



Y bylbiau wedi'u plannu



Plant y Meithrin yn coginio cawl



Casglu dail yr hydref

# Moethusrwydd yn y Ddinas

Os oes gennych berthnasau neu gyfeillion sydd am ddod am wyliau i Gaerdydd am dridiau neu rhagor yna mae cwmni Best of Wales yn cynnig dewis eang o fflatiau moethus. Yn eu plith mae Pen Dinas, Drws Nesaf a Pontcanna Mews sy'n agos i ganol y dref. Mae'r fflatiau moethus naill ai yn newydd sbon neu wedi cael eu hadnewyddu yn llwyr i safon 4 seren ac uwch yn cael eu rheoli gan Rhodri Huws. Gallwch weld y fflatiau ar wefan bestofwales.co.uk.



Ystafell Fwyta Pen Dinas

## Ysgol Dolau

**Dosbarth 1**
Ein thema yw 'Rydw i'n arbennig'. Rydyn ni wedi bod yn dysgu amdanon ni ein hunain a phwy sydd yn ein teulu. Rydyn ni wedi bod yn dysgu am rannau'r corff ac yn dechrau defnyddio'r eirfa Cymraeg. Rydyn ni wedi dysgu 'mae gen i…'a'r lliwiau yn Gymraeg. Rydyn ni wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd ac yn mwynhau bod yn Nosbarth 1!



**Dosbarth 3**
Mae Dosbarth 3 wedi cael wythnosau cyffrous a llawn hwyl ers dechrau nôl ym mis Medi. Rydyn ni ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer ein parti i'r Cerflun Ryddid. Aethon ni am dro i'r Co -op lleol i brynu bwyd i'r parti ac i greu brechdanau. Rydyn ni wedi bod yn gwrando, defnyddio a threfnu'r cyfarwyddiadau, rydyn ni nawr yn gwybod sut i greu brechdan! HWRE!!!



**Dosbarth 2**
Ein thema yw 'Rydw i'n arbennig'. Rydyn ni wedi bod yn dysgu amdanon ni ein hunain a beth a phwy sydd yn arbennig i ni. Rydyn ni wedi trafod pwy sydd yn ein teulu ac wedi dod a lluniau babi i mewn i'r ysgol a chwarae gêm o 'Pwy yw pwy'. Rydyn ni wedi trafod beth yr hoffem ni wneud/bod pan dyfwn ni i fyny fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon.



**Dosbarth 4**
I ddechrau ein thema Ynys Bell gofynnodd Barti Ddu i ni ymchwilio ein ynys ni yng Nghymru sef Ynys Môn i helpu iddo ddod o hyd i'w arian a gollwyd ar y Royal Charter. Yna teithion ni i Jamaica yn Y Caribî i ddysgu am ynys ar draws y byd. Gwrandawon ni ar gerddoriaeth Bob Marley a chreuon ni tambroîn lliwgar yr un.

**Dosbarth 5**
Wel, am dymor prysur a llawn hwyl a sbri! Mae'r plant wedi setlo'n arbennig o dda yn eu blwyddyn gyntaf yn yr Adran Iau ac yn gyfarwydd gyda'n hardaloedd dysgu newydd yn barod. Cyflawnom ni amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon ac Wythnos Eco. Uchafbwynt oedd dysgu stori'r dyn gwyrdd ac ail greu ei wyneb yn ein coedwig.



**Dosbarth 6**
Rydym wedi cael dechrau gwych i Flwyddyn 4 ac wedi ymweld â chymaint o byncïau gwych yn barod. Mae'r disgyblion wedi mwynahu ein thema Mis Hanes Pobl Dduon ac wedi bod wrth eu bodd yn dysgu am gydraddoldeb a'r bobl ddylanwadol sydd wedi helpu i greu hyn.



## Diwrnodau Trosglwyddo Ysgol Llanhari









**Dosbarth 8**
Rydyn ni wedi bod ar ddau ymweliad ag Ysgol Llanhari yn ystod y mis yma. Cawson ni ddau ddiwrnod gwerth chweil yn gweithio o fewn meysydd cwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r llun yn ein dangos ni'n arbrofi mewn labordy!



**Dosbarth 7**
Mae'r plant wedi bod yn mwynhau dysgu am Fis Hanes Pobl Dduon. Aethon ni ar drip i Gaerdydd i ymweld â cherflun Betty Campbell a'i braslunio. Ymwelon ni â murlun oedd yn dathlu diwylliannau gwahanol y Bae, ac yn lwcus i ni, gwelon ni yr arlunydd ei hun, Yusuf!



# Ysgol Llanhari

**Newyddion rhagorol!**
Rydym ar ben ein digon! Canol mis Medi, daeth newyddion gwych o du'r Awdurdod Addysg gyda chyhoeddiad mewn cyfarfod o gabinet y cyngor bod Rhondda Cynon Taf yn buddsoddi swm sylweddol o arian yn Ysgol Llanhari. Rydym fel ysgol, wedi bod yn ymgyrchu ers amser maith am adeiladau o safon Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn Ysgol Llanhari ac felly mae'r newyddion yma yn rhagorol. Mae Ysgol Llanhari ar restr y Sir ar gyfer cam nesaf y cynllun ac fe gadarnhwyd hyn gyda datganiad:

*'Bydd gwaith datblygu yn cychwyn ar y rhaglen ddiwygiedig gan symud ymlaen gyda nifer o brosiectau allweddol. Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer Ysgolion 21 Ganrif wedi ei glustnodi ar gyfer y prosiectau canlynol sef Ysgol Llanhari – moderneiddio a disodli mwyafrif adeiladau presennol yr ysgol'*

Mae disgyblion a staff Ysgol Llanhari yn haeddu adnoddau o'r safon uchaf ac rydym wrth ein bodd bod y Cyngor wedi cydnabod hyn. Mae'n destun dathlu mawr iawn, yn enwedig i dwf addysg Gymraeg yn yr ardal gyda chyhoeddiad hefyd bod bwriad i ddatblygu Ysgol Cwm Rhondda fel ysgol bob oed. Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio a chynllunio ar y datblygiad cyffrous yma ar gyfer Ysgol Llanhari gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf.

**Prysurdeb y tymor**
Braf iawn fu ail-gydio mewn gweithgareddau a chynnig arlwy lawn y tu hwnt i'r dosbarth i'n disgyblion wrth lacio ar rai o gyfyngiadau'r pandemig. Mae nifer fawr o ddisgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth a gynigir gan gymuned yr ysgol. Mae dewis eang o glybiau ar gael i'r disgyblion o bob oed, boed yn chwaraeon, cerddoriaeth, dawns, clybiau drama, gwyddoniaeth, ieithoedd, garddio ayyb a braf gweld disgyblion o bob oed yn cyfranogi. Braf hefyd gweld disgyblion y chweched dosbarth yn arwain a chynorthwyo mewn cynifer o'r clybiau yma. O ail-gychwyn, sylweddolir cymaint inni weld eisiau hyn y llynedd.









**Cyfrannu at Elusen Macmillan**
Cafwyd ymateb gwych gan ddisgyblion a staff i'n hymdrech i godi arian eleni ar gyfer elusen Macmillan mewn bore coffi cymdeithasol ar ddiwedd mis Medi. Diolch i ddisgyblion blwyddyn 12 a 13 am drefnu. Llwyddwyd i godi swm teilwng iawn o bron i £450.



**Yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol**
Braf iawn oedd ail-gychwyn y gwersi ieithoedd rhyngwladol i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 y clwstwr, gyda Madame Hedd a Madame Reid yn ymweld â'n hysgolion clwstwr unwaith yr wythnos. Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn dysgu sgiliau iaith newydd. Un o uchafbwyntiau'r



hanner tymor oedd dathlu diwrnod ieithoedd Ewropeaidd ddiwedd Medi. Uchafbwynt gwahanol gafodd disgyblion CA3 yr adran uwchradd wrth inni gychwyn sefydlu cyswllt fideo ag ysgol Ffrengig ei hiaith yn Guadeloupe sef College Germain Saint Ruf. Tybed a gawn ymweld rhyw ddiwrnod?!



**Dysgu am hawliau**
Ffocws thema disgyblion bl2-4 yr adran gynradd y tymor hwn fu dysgu am hawliau plant. Pleser fu cynnal sesiwn holi ac ateb ar y sgrin â swyddogion swyddfa y Comisynydd Plant ac fe gymerwyd y cyfle wrth astudio'r thema, i feddwl am blant sy'n llai ffodus, trwy drefnu ras hwyl er mwyn codi arian at elusen yr NSPCC. Roedd y disgyblion i gyd yn hynod falch o'u hymdrechion.





**Llongyfarchiadau mawr!**



Yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor, daeth newyddion da i'r adran Ddrama bod Ifan Roberts a Cerys Hulse wedi ennill gwobrau yng nghystadlaethau cyfansoddi drama Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch!

**Diwrnodau Trosglwyddo**
Rydym eisioes yn troi ein golygon at fis Medi nesaf a hyfryd oedd croeaswu disgyblion blwyddyn 6 y clwstwr i Lanhari ar ddechrau mis Hydref i fwynhau deuddydd o weithgareddau yn yr adrannau Gwyddoniaeth, Technoleg, Cerdd a Drama. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn aelodau o flwyddyn 7 cyn hir!

**Diwrnod Shwmae? Sumae?**
Cafwyd cryn dipyn o hwyl a lliw yn dathlu diwrnod Shwmae? Sumae? ar y 15fed o Hydref. Roedd sgiliau creadigol y disgyblion yn hollol amlwg wrth iddynt greu fideos, lluniau llonydd, celf ac ambell ddawns er mwyn codi ymwybyddiaeth mewn modd hwyliog iawn. Diolch am eich ymdrechion i gyd.








## Caru Crefftio

*Dathliad o ddoniau crefftio aelodau a chyfeillion Merched y Wawr*
*Gol. Iris Williams ac Angharad Fflur Jones*
Gwasg Carreg Gwalch, £10

Yn dilyn llwyddiant y gyfrol *Curo'r Corona'n Coginio* y llynedd, mae Merched y Wawr a Gwasg Carreg Gwalch wedi cydweithio eto eleni i greu cyfrol unigryw sy'n dathlu creadigrwydd aelodau a chyfeillion y mudiad, *Caru Crefftio*.

Yn fuan ar ôl Clo Mawr y Covid ym Mawrth 2020 sefydlodd Merched y Wawr ddwy dudalen Facebook, Curo'r Corona'n Coginio a Curo'r Corona'n Crefftio er mwyn annog pobl i rannu eu cynnyrch a'u cynghorion. Mae'r ddwy dudalen wedi profi'n boblogaidd tu hwnt: mae bron i 3,000 yn aelodau o'r dudalen crefftio, rhai yn bobl sydd wedi bod yn ymarfer eu crefft ers blynyddoedd lawer, eraill wedi troi at grefftio yn ystod y cyfnodau clo er mwyn llenwi amser a hybu iechyd meddwl. Medd Tegwen Morris, Cyfarwyddwraig Genedlaethol Merched y Wawr; "Dwi'n edmygu gweithiau celf ein haelodau ers dros ugain mlynedd, gan ryfeddu at ddyfeisgarwch a chreadigaeth pan fyddaf yn paratoi arddangosfa neu'n arddangos ymgeision cystadlaethau. Bûm yn ffodus i weithio ar brosiect i'r Cyngor Llyfrau yn casglu ymatebion darllenwyr Cymraeg a Dysgwyr ynglŷn ag arferion darllen, ac roedd yn amlwg o'r ymatebion fod prinder ym maes crefftio ac ailgylchu/ uwchgylchu. Felly, dyma godi'r ffôn a gofyn i Wasg Carreg Gwalch ystyried cyhoeddi ail gyfrol, *Caru Crefftio*, yn dilyn ymlaen o *Curo'r Corona'n Coginio*."

Mae'r gyfrol yn cynnwys trosolwg o rai o grefftau mwyaf poblogaidd Cymru, o wau a chrosio i grefftau gwlad traddodiadol megis creu doliau ŷd ac adeiladu waliau cerrig, yn ogystal ag esiamplau o'r deunydd gorffenedig wedi'i greu gan aelodau'r mudiad a chyfranwyr i'r dudalen Facebook Curo'r Corona'n Crefftio. Gan fod digon o ddeunydd wedi dod i law i lenwi sawl cyfrol, roedd yn rhaid cael rhywun profiadol i roi trefn ar y gwaith. Daeth Iris Williams, aelod gweithgar o gangen MYW Pumsaint i'r adwy, fel yr eglura: "Ro'n i'n teimlo'n freintiedig i gael y cyfle - gan 'mod i wedi ymddiddori mewn crefft ers pan oeddwn yn blentyn ac wedi rhoi cynnig ar bob math o grefftau dros y blynyddoedd. Dysgu gan Mam wnes i - roedd hi'n gwneud gwaith hyfryd ac yn gwau ac yn gwnïo dillad i mi a'm chwiorydd. Erbyn hyn crosio a gwnïo yw'r ffefrynnau, ac rwy'n hoff o ddarllen hefyd, felly roedd cyfuno'r




crefftio a'r darllen yn apelio. Rwyf wedi mwynhau'r profiad ac mae wedi bod yn wych cael a darllen storïau personol y crefftwyr."

Y golygydd arall oedd Angharad Fflur Jones, un o staff Merched y Wawr, oedd yn hen law yn dilyn ei gwaith ar *Curo'r Corona'n Coginio*! "Bu trefnu'r deunydd ar gyfer *Caru Crefftio* a *Curo'r Corona'n Coginio* yn brofiad a hanner!" eglura Angharad. "Braf oedd clywed hanesion, straeon a helyntion bobl wrth fynd ati i greu'r eitemau gwahanol - rhai gyda hanes doniol, ac eraill yn fwy teimladwy."

Bydd pawb sy'n prynu'r gyfrol yn cael mynediad at ddeunydd ychwanegol arbennig: patrymau ar gyfer teganau meddal a grëwyd ar gyfer Merched y Wawr yn y 1980au. Bu i ambell gopi o'r patrymau gwreiddiol, i wneud cymeriadau hoffus megis Woltyr yr Hwyaden a Gwawr y Ddoli Glwt, oroesi yng ngofal un neu ddwy o aelodau'r mudiad.

Mae *Caru Crefftio* ar gael mewn siopau llyfrau ledled Cymru, ac o www.carreg.gwalch.cymru neu www.gwales.com neu swyddfa@merchedywawr.cymru

## Rali Nid yw Cymru Ar Werth 13 Tachwedd

**Parhad o dudalen 1**

Ym mis Gorffennaf, daeth dros fil o bobl ynghyd yn enw Cymdeithas yr iaith ar Argae Tryweryn i ffurfio argae dynol yn arwydd o benderfyniad i atal y chwalfa. Mae'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai yn awr yn dod at risiau'r Senedd ei hun mewn rali fawr Sadwrn 13eg o Dachwedd. Bydd yr adloniant yn dechrau am 1.30pm a siaradwyr yn y rali o 3pm ymlaen.

Yn annerch y rali, bydd Y Cyng. Rhys Tudur o Nefyn lle mae Cyngor y Dref wedi rhoi pwysau ar y Prif Weinidog i weithredu. Bydd Meri Huws hefyd yn annerch y rali. Mae Meri'n gyn-Gomisiynydd Iaith ac yn aelod o Fwrdd yr elusen Shelter, ond pwysleisia ei bod yn dod i siarad allan fel unigolyn yn yr ymgyrch bwysig hon. Hefyd yn siarad bydd Mabli Siriol, cadeirydd Cymdeithas yr Iaith a fagwyd yn Ne Caerdydd, a bydd eraill o'r gymuned leol yn ymuno gyda hi.

Mae nifer o resymau da pam fod y rali hon o bwys mawr i bobl Caerdydd. Yn gyntaf, mae llawer o Gymry Cymraeg Caerdydd â'u gwreiddiau yng nghymunedau Cymraeg y gogledd a'r gorllewin, a dyma gyfle i weithredu drostyn nhw. Yn ail, mae ardal y Senedd ei hun – Tre-biwt – wedi wynebu'r un broblem, wrth fod y gymuned unigryw leol yn cael ei chwalu a buddiannau corfforaethol a thwristaidd yn symud i mewn. Ymgyrch Cymru gyfan yw hon.

Dyma gyfle i'n Llywodraeth osod esiampl i'r byd mewn cyfiawnder cymdeithasol gan basio Deddf Eiddo a fydd yn cyfri tai fel adnoddau cymdeithasol i roi cartrefi i bobl, yn hytrach nag fel asedau masnachol i ymelwa oddi arynt. Welwn ni chi Sadwrn 13eg o Dachwedd – Nid yw Cymru ar Werth!

